

# Crynodeb o Berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2014/15

Tachwedd 2015

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan yr Arweinydd | 3 |
| Cwrdd ag Aelodau ein Cabinet | 4 |
| Ein Crynodeb Ariannol ar gyfer 2014/15 | 5-6 |
| Gwrando ar ein Cwsmeriaid | 7 |
| **Crynodeb o berfformiad ein gwasanaethau yn 2014/15** | |
| **1 Prif Weithredwr** | 10 |
| **2 Y Gyfadran Gwasanaethau Corfforaethol** | 14 |
| **3 Y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol** | 16 |
| **4 Y Gyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol** | 20 |
| Crynodeb o'n perfformiad yn erbyn ein blaenoriaethau yn 2014/15 (a elwir yn Amcanion Gwella) | 24 |
| Crynodeb o'n perfformiad cenedlaethol yn 2014/15 | 36 |
| Cysylltwch â ni | 38 |

**Rhagair gan yr Arweinydd**

Arweinydd y Cyngor:

Y Cyngh. Keith Reynolds




Rwy'n falch o gyflwyno crynodeb o'n Perfformiad ar gyfer 2014/15. Eleni cawsom adroddiad cadarnhaol gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n dystiolaeth o'r gwaith caled a gyflawnwyd gan y Cyngor dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Rydym yn cydnabod bod rhywfaint o wendidau o hyd ond byddwn yn gweithio'n galed i ganolbwyntio ar y rhain wrth edrych i'r dyfodol.

Gan ddefnyddio'r 43 o fesurau Llywodraeth Cymru sy'n cwmpasu meysydd fel Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a'r Amgylchedd roedd ein darlun ni yn gymysg, o gymharu â gweddill Cymru. Roedd 12 o fesurau Caerffili ymhlith 'chwartel uchaf' y cynghorau ledled Cymru yn 2014/15, gan gynnwys pump o'r rhai gorau yng Nghymru, yn bennaf ym maes gofal cymdeithasol. Roedd 18 o'n mesurau yn y 'chwartel canol' gyda 12 mesur yn y 'chwartel isaf' o'u cymharu ag awdurdodau eraill.

O ran cyflawni ein blaenoriaethau, rydym yn amlwg yn falch bod y cyngor wedi cyrraedd pedwar o'i chwech Amcan Gwella ar gyfer 2014/15, ac wedi cyrraedd dau ohonynt yn rhannol, gyda rhagor o fanylion yn y crynodeb a'r cynllun llawn.

Hoffwn ddiolch i bawb sy'n ymwneud â gwella ein gwasanaethau i'r cyhoedd ac rwy'n edrych ymlaen at weld y canlyniadau cadarnhaol rydym am eu cyflawni yn y dyfodol.



Mae'r adroddiad llawn ar gael yn http://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Strategies,-plans-and-policies/Improvement-Plan neu o Swyddfeydd y Cyngor a llyfrgelloedd.

# Cwrdd ag Aelodau ein Cabinet



Y Cyngh. Keith Reynolds

Arweinydd y Cyngor



Y Cyngh. David Poole

Aelod Cabinet dros Dai



Y Cyngh. Robin Woodyatt

Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol



Y Cyngh. Ken James

Aelod Cabinet dros Adfywio, Cynllunio a Chynaliadwyedd



Y Cyng. David Hardacre

Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Eiddo



Y Cyngh. Christine Forehead

Aelod Cabinet dros Adnoddau Dynol a Rhe-olwr Llywodraethu/ Busnes



Y Cyngh. Tom Williams

Aelod Cabinet dros Briffyrdd, Trafnidiaeth a Pheirianneg



Y Cyngh. Nigel George

Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol a Hamdden



Y Cyngh. Barbara Jones

Dirprwy Arweinydd ac ae-lod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol

Mae'r Cyngor yn cynnwys 73 o Gynghorwyr etholedig sydd ag amrywiaeth eang o rolau, gan cynnwys cytuno ar fframwaith polisi'r Cyngor, y Dreth Gyngor a'r gyllideb. Caiff pob Cynghorydd ei ethol i gynrychioli ardal benodol (Wardiau Etholiadol) ac maent fel arfer yn eu swydd am bedair blynedd. Mae gan Gynghorydd nifer o rolau a chyfrifoldebau, ac mae angen iddo ganfod cydbwysedd rhwng anghenion a buddiannau ei gymuned leol, ei blaid neu grŵp gwleidyddol a blaenoriaethau'r Fwrdeistref Sirol ehangach. Mae Cyn-ghorwyr yn arweinwyr cymunedol ac mae eu gwaith fel arfer yn cynnwys cynnal cymorthfeydd i gwrdd â'u hetholwyr, helpu sefydliadau lleol (e.e. ysgolion, busnesau ac elusennau), ymgyrchu ar faterion lleol, meithrin cysylltiadau â phob rhan o'r gymuned a bod yn arweinydd cymunedol. I ganfod eich cynrychiolwr yn y Cyngor, ewch i wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, lle gallwch ganfod pwy yw eich Cynghorydd a chysylltu ag ef.

# Ein Crynodeb Ariannol 2014/15

Mae'r Awdurdod yn cynllunio ac yn cymeradwyo ei gyllidebau ar gylch cynllunio ariannol tymor canolig tair blynedd, sy'n ystyried tueddiadau hanesyddol a phatrymau gwario, mentrau cenedlaethol a lleol a mynediad at ffynonellau ariannu niferus, sydd weithiau'n newid o flwyddyn i flwyddyn.

Mae ein prif egwyddorion hyd yma wedi cynnwys diogelu'r gwasanaethau a ddarperir gennym, swyddi a darparu gwelliannau i'n cymunedau, y bobl, ein strwythur a chefn gwlad cyfagos, tra'n sicrhau dull gweithredu darbodus o ran penderfyniadau ariannol. Yn ddiweddar, rydym wedi wynebu cyfyngiadau ariannol sydd wedi newid ein ffordd o wneud pethau mewn rhai gwasanaethau (cyfeirir at hyn weithiau fel arbedion a gynlluniwyd a dadfuddsoddiadau).

Mae'r rhagolygon ariannol yn parhau i fod yn llwm ac, ar ben yr arbedion sylweddol a wnaed eisoes mewn blynyddoedd diweddar, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio'n galed yn ystod y misoedd diwethaf i nodi arbedion pellach o £26m er mwyn gweithredu cyllidebau cytbwys ar gyfer blynyddoedd ariannol 2016/17 a 2017/18. Yn anffodus, mae cyhoeddiadau diweddar gan Lywodraeth y DU ar wariant cyhoeddus yn awgrymu y gallai'r sefyllfa ariannol waethygu, a fyddai'n golygu bod angen canfod hyd yn oed fwy o arbedion.

Bydd Cabinet y Cyngor yn derbyn adroddiad ym mis Hydref 2015 a fydd yn amlinellu cynigion am arbedion drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17. Wedyn, cynhelir cyfnod ymgynghori ar y cynigion hyn a ddaw i ben ym mis Ionawr 2016, a chaiff cynigion cyllideb pendant eu cyflwyno i'r Cyngor ym mis Chwefror 2016. Mae'r Awdurdod yn rheoli dau brif gategori o ran cyllid, h.y. **refeniw** (costau rhedeg beunyddiol ar gyfer gwasanaethau) a **chyfalaf** (costau penodol ar gyfer diweddaru a chynnal a chadw prosiectau mawr newydd).

Mae'r tabl gyferbyn yn rhoi crynodeb o gyllidebau refeniw a gwariant refeniw ar gyfer y cyfnod 2013/14 i 2015/16.

| Gwariant (£m) | 2013/14 | | 2014/15 | | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb | Gwariant | Cyllideb | Gwariant | Cyllideb |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 70.26 | 56.98 | 68.26 | 57.57 | 66.14 |
| Addysg | 128.23 | 128.90 | 127.30 | 125.92 | 127.42 |
| Gwasanaethau Cymunedol | 60.37 | 59.94 | 58.16 | 57.31 | 54.74 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 78.61 | 76.74 | 78.31 | 74.59 | 77.32 |
| Cyfanswm Net (£m) | 337.47 | 322.56 | 332.03 | 315.39 | 325.62 |

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pwysau a'r buddsoddiadau allweddol o ran costau a gafodd eu cynnwys yng nghyllideb refeniw 2014/15.

| Maes Gwasanaeth | Swm | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Pob un | £3.8m | Pwysau cost Awdurdod Cyfan gan gynnwys cynnydd chyddiannol a chymorth refeniw ar gyfer Rhaglen Cyfalaf y Cyngor |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | £1.0m | Cyllid ariannol i ddiwallu'r galw cynyddol am wasanaethau |
| Gwasanaethau Corfforaethol | £0.1m | Costau Gweithredu Diwygio Lles |

| Cyfalaf (£m) | 2012/13 | | 2013/14 | | 2014/15 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb | Gwariant | Cyllideb | Gwariant | Cyllideb |
| Addysg | 25.81 | 10.86 | 22.51 | 7.05 | 1.42 |
| Priffyrdd | 12.04 | 9.14 | 10.96 | 6.54 | 4.83 |
| Stoc Tai (Cyhoeddus) | 21.59 | 14.32 | 14.65 | 14.65 | 27.50 |
| Grantiau Tai Preifat | 4.03 | 4.03 | 3.85 | 3.73 | 2.47 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 1.08 | 0.46 | 1.23 | 1.10 | 0.30 |
| Cymuned a Hamdden | 1.42 | 0.72 | 4.37 | 2.05 | 0.94 |
| Arall | 18.26 | 14.77 | 22.94 | 18.02 | 3.50 |
| **Cyfanswm (£m)** | **84.23** | **54.30** | **80.51** | **53.14** | **40.96** |

Fel rhan o'n Cynllun Ariannol Tymor Canolig, roeddem eisoes wedi sicrhau arbedion o £5.213m cyn blwyddyn ariannol 2013/14. Gwnaeth hyn ein galluogi i gyflwyno cyllideb gytbwys ar gyfer 2013/14 heb fod angen gwneud arbedion pellach yn ystod y flwyddyn.

Mae **Gwariant Cyfalaf** yn amrywio bob blwyddyn a chaiff cyllidebau eu dyrannu o ffynonellau arian-nu penodol. Mae'r tabl hwn yn rhoi crynodeb o gyllidebau cyfalaf a gwariant cyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 2012/13 a 2014/15:

Mae'r tanwariant cyfalaf o £27.37m yn 2013/14 yn bennaf o ganlyniad i oedi wrth ddatblygu cynlluniau. Mae hyn yn debyg i'r sefyllfa ar ddiwedd 2012/13. Caiff y tanwariant ei gario ymlaen i flwyddyn ariannol 2014/15 er mwyn sicrhau y gellir cwblhau cynlluniau.

**Ceir manylion pellach am gyllid y Cyngor ar ein gwefan: Add address of Caerphilly Finances**

## Gwrando ar ein Cwsmeriaid



Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ym maes defnyddio'r rhyngrwyd, y defnydd a wneir o ddyfeisiau tabled sydd wedi gweld y twf mwyaf sylweddol, yn enwedig ymhlith defnyddwyr hŷn. Mae ein gwefan bellach wedi'i hailgynllunio fel ei bod yn gweithio'n well ar ddyfeisiau tabled a ffonau deallus ac mae mwy na hanner yr ymweliadau â'n gwefannau bellach ar dabledi a dyfeisiau symudol.

Yn ystod 2014 cafwyd 12 miliwn o ymweliadau â'n gwefannau gan gynnwys 8.6 miliwn ar brif wefan CBSC ac 1.2 miliwn ar wefan Leisure Lifestyle. Mae nifer yr ymweliadau â'n gwefan wedi cynyddu 40% ers 2011. Mewn adolygiad meincnodi o wefannau llywodraeth leol ledled y DU * bu ein gwefan ymhlith y 10 uchaf o ran boddhad cwsmeriaid am y pum mlynedd diwethaf ac roedd yn y pedwerydd safle yn y DU o ran dod o hyd i wybodaeth a gwasanaethau. Mae llawer o bobl yn dal i gysylltu â ni dros y ffôn a chawsom fwy nag 1.9 miliwn o alwadau y llynedd, yr atebwyd 82% ohonynt o fewn 20 eiliad.

Fel rhan o'n Cynllun Ariannol Tymor Canolig mae Cynghorwyr wedi cydnabod pwysigrwydd swyddfeydd lleol lle y gall cwsmeriaid ddelio â'r cyngor yn bersonol. O ganlyniad maent wedi penderfynu cadw presenoldeb lleol Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid a Llyfrgelloedd y Cyngor. Fodd bynnag, er mwyn lleihau costau, cwtogir ar yr amseroedd agos a bydd Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid y Coed-duon yn symud i Lyfrgell y Coed Duon er mwyn cyfateb i'r gwasanaethau a ddarperir yng nghanol trefi Caerffili, Bargod a Rhisga.

Bu lefelau boddhad â Chanolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid a'r Ganolfan Gyswllt yn gyson uwchlaw 90%. Dangosodd arolwg Rhagfyr 2014 fod 95% o ymwelwyr â Chanolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid yn fodlon neu'n fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y ganolfan, bod 92% yn fodlon ar y gwasanaeth cyffredinol a ddarperir (gan gynnwys camau gweithredu cefn swyddfa a'r modd y darperir gwasanaethau) a bod 86% o'r farn bod yr amser aros yn dderbyniol. Roedd 92% o gwsmeriaid yn fodlon neu'n fodlon iawn ar wasanaeth y Ganolfan Gyswllt.

** Ffynhonnell: adolygiad SOCITM (The Society of IT Management) a elwir yn Better Connected Ebrill 2015*


## Arolwg Cenedlaethol Cymru

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn arolwg wyneb yn wyneb o bobl ledled Cymru a gynhelir gan Lywodraeth Cymru. Bob blwyddyn, gofynnir i dros 14,000 o bobl 16 oed a throsodd roi eu barn ar amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio arnynt hwy a'u hardal leol. Caiff ymatebwyr eu dewis ar hap er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n gynrychioliadol. Roedd yr arolwg mwyaf diweddar ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2015 a dangosir darnau ohono gyferbyn. Ceir y manylion llawn ar wefan Llywodraeth Cymru.


O'r arolwg cyfan roedd 53% o'r ymatebwyr yn cytuno bod eu cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, sy'n gyfran is nag ydoedd yn 2012-13 a 2013-14 pan oedd 57%, yn y ddwy flynedd, yn cytuno â'r gosodiad ledled Cymru. Fodd bynnag, roedd y ffigur ar gyfer Caerffili, sef 61%, yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer eleni (er ei fod yn is na ffigur y llynedd, sef 66%).

Yn 2014-15, cynhwyswyd cwestiwn newydd ar b'un a yw pobl yn cytuno neu'n anghytuno bod eu cyngor 'yn gwneud popeth o fewn ei allu i wella fy ardal leol'. Roedd cyfran y bobl a oedd yn cytuno bod eu cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i wella'r ardal leol yn amrywio o 29% ym Mhowys i 45% yng Nghaerffili.

**Proportion of people who agree or disagree that their council provides high quality services, by local authority.**




**Proportion of people who agree or disagree that their council does all it can to improve the local area, by local authority.**



**Mae adrannau canlynol ein crynodeb yn rhoi trosolwg i'r darllenydd o berfformiad ein cyfadranau yn 2014/15.**

**1**
Prif Weithredwr
Tud. 10

**2**
Gwasanaethau Corfforaethol
Tud. 14

**3**
Addysg a Gwasanaethau Cymunedol
Tud. 16

**4**
Gwasanaethau Cymdeithasol
Tud. 20



Chris Burns
Prif Weithredwr Dros Dro



Nicole Scammell
Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol



Christina Harrhy
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol



Dave Street
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

# 1. Cyfadran y Prif Weithredwr

## Datganiad o Berfformiad Cyffredinol ar gyfer 2014/15



Mae Gwasanaeth y Prif Weithredwr yn cwmpasu **Gwasanaethau Adfywio a Chynllunio** a **Gwasanaethau Tai**.

Rydym wedi bod yn brysur eleni yn gwneud cais am gyllid i wella amrywiaeth o agweddau amgylcheddol, er enghraifft, gwnaethom gyflwyno cais am i arian y Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP) barhau ar gyfer y cyfnod hyd at 2021. A dylai'r cynnig hwn mewn Partneriaeth â CBS Blaenau Gwent arwain at ddarparu tua £2.6m i wella Hawliau Tramwy a gweithgarwch rheoli tir mewn nifer o brosiectau, gan gynnwys mynd i'r afael â rhywogaethau planhigion ymledol. Mae gwaith hefyd wedi'i wneud ar gyflwyno planhigion a phryfed er budd ein hucheldiroedd ac er mwyn peillio rhagor o blanhighion.

Llwyddodd Parc Cwm Darran i gadw Statws Baner Werdd, (**Gwobr y Faner Werdd** yw'r safon cenedlaethol ar gyfer parciau a mannau gwydd yn y DU er mwyn cydnabod a gwobrwyo mannau gwyrdd sy'n cyrraedd safonau uchel) ac rydym wedi cynnal neu gefnogi amrywiaeth eang o tua 50 o ddigwyddiadau, ledled y Fwrdeistref, gan gynnwys cerdded, bioamrywiaeth a digwyddiadau tymhorol mewn lleoliadau yng nghefn gwlad. Mae effeithiau cyflwyno taliadau parcio ceir mewn parciau gwledig yn cael eu monitro. Fodd bynnag, mae'n darparu llif incwm i'r Awdurdod.

Cynhaliwyd astudiaeth i nodi effeithiau newid yn yr hinsawdd ym mhob un o'r 18 o wasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae ein gwaith addysg ar gyfer **Datblygu Cynaliadwy** wedi arwain at ddyfarnu statws Baner Werdd i 71% o'r ysgolion yn y fwrdeistref sirol (64 allan o 90) o dan gynllun Eco Ysgolion. Cafodd 16 o ysgolion Wobr Platinwm drwy gynnal eu statws Baner Werdd am o leiaf wyth mlynedd.

Gwnaethom sylwi ar welliant pendant o ran lefelau buddsoddi a lefelau buddsoddi posibl yn y Fwrdeistref Sirol. Defnyddiwyd yr holl gyllid ar gyfer grantiau yn llawn yn ystod y flwyddyn a rhagorwyd ar yr holl dargedau ar gyfer creu a diogelu swyddi a ddiogelwyd a mentrau cymdeithasol. Fodd bynnag, roedd yn siomedig nodi bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod cefnogi cynnig i ymestyn cynllun y Gronfa Fuddsoddi Leol a ariennir gan yr UE, a wnaeth ein helpu i ragori ar y targedau hynny.

Yn anffodus bu'n rhaid rhoi'r gorau i gefnogi a chynorthwyo cwmnïau TGCh ym mis Hydref 2014 am nad oeddem yn gallu darparu gwasanaethmwyach, a bu'n rhaid cau'r prosiect Go2 (canolfan ar-lein i gyfeirio defnyddwyr y rhyngrwyd at siopau yn nifer o drefi'r cymoedd) gan nad oes tîm ar gael mwyach i gynnig y gwasanaethau hyn.

Ariannwyd dau swyddog cyflogaeth ieuenctid gan **Cymunedau yn Gyntaf** er mwyn helpu pobl ifanc 16-24 oed i fanteisio ar gyfleoedd i wirfoddoli a hyfforddi, cyfleoedd a gynigir gan Twf Swyddi Cymru a chyflogaeth. Rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2015, mae 429 o bobl ifanc wedi cael eu helpu. O'r rhain, mae 101 wedi cael lleoliad ac mae 105 wedi dod o hyd i swydd. Rydym wedi cyflogi dau swyddog cynhwysiant digidol er mwyn helpu pobl i feithrin sgiliau TG sylfaenol hanfodol, a chynorthwywyd 641 o bobl i fynd ar-lein a dysgu TG sylfaenol. Mae'r tîm wedi helpu 257 o bobl i ennill cymwysterau sy'n ymwneud â chyflogaeth a 171 o bobl i gael swydd.

O ran twristiaeth a digwyddiadau, cafodd nifer o ddigwyddiadau newydd eu cynnal yn ogystal â rhai hen ffefrynnau, a ddenodd filoedd o bobl ynghyd o'r Fwrdeistref a thu hwnt, yn cynnwys Gŵyl Fwyd Caerffili, ras 10k Caerffili, Parti Traeth Coed-duon (mis Mehefin), Sioe Fodelau Cymru yn Llancaiach (mis Gorffennaf) a phenwythnos Caws Mawr (mis Gorffennaf). Ym mis Awst agorodd y Cyngor arddangosfa newydd fawr yn Amgueddfa a Chanolfan Dreftadaeth y Tŷ Weindio er mwyn nodi can mlynedd ers dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Cafodd 'Our Duty to Bear' dderbyniad da a pharhaodd i ddenu ymwelwyr a chynulleidfaoedd newydd. Cynhaliodd Sefydliad y Glowyr Coed-duon nifer o berfformiadau newydd a chyffrous, a arweiniodd at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr a chynulleidfaoedd. Mae rhaglen ddigwyddiadau craidd y Cyngor yn creu effaith economaidd gros o £2.2m ar gyfer economi Bwrdeistref Sirol Caerffili gan gynnal hyd at 50 o swyddi a chânt eu cynnal gyda chymorth a phartneriaeth sefydliadau allanol er mwyn creu gweithgarwch a denu pobl i ganol ein trefi.

Mae'r digwyddiadau yng nghanol y trefi yn helpu i ddenu mwy o bobl i ganol ein trefi, gan ychwanegu 3% ychwanegol at y ffigurau ymweld blynyddol ar gyfer tref Caerffili. Mae twristiaeth bellach yn denu £113m (cynnydd o 6% o gymharu â 2013) gyda 1.71m o ymwelwyr yn ystod y flwyddyn (cynnydd o 2.6%). Roedd nifer yr ymwelwyr â Llancaiach Fawr, Amgueddfa'r Tŷ Weindio, Cwmcarn a Visit Caerphilly yn 546,622 sydd bron 17.5% uwchlaw'r targed.

Mae gan ein hunedau diwydiannol lefelau deiliadaeth uchel o hyd, yn enwedig o gymharu â'r sector preifat. Yn gyffredinol, roedd 93.4% o'n holl unedau diwydiannol a swyddfeydd wedi'u meddiannu, sydd ychydig yn is na'r targed. Fodd bynnag, bydd ymgyrchoedd marchnata a hyrwyddo newydd a chynigion newydd yn helpu i fynd i'r afael â'r gostyngiad hwn. Cydnabuwyd y gwelliannau i seilwaith a wnaed ym Margod a chafodd y prosiect wobr "canmoliaeth uchel" gan Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru. Llwyddodd gwaith partneriaeth ag Ymddiriedolwyr "Memo", a dyraniad o fwy na £1.6m gan yr UE, i adfywio'r adeiladau hyn sydd o bwys cenedlaethol a'u hailsefydlu'n ganolfan i weithgareddau cymdeithasol, treftadaeth a dysgu yn y gymuned.

Er y cytunwyd ar denantiaethau manwerthu â Greggs a Subway yn ystod 2014/15, mae trafodaethau yn parhau â nifer o fanwerthwyr cenedlaethol. Fodd bynnag, mae cadarnhau unrhyw ymrwymiad gan y sector preifat i'r unedau sydd heb eu meddiannu yn dal i fod yn anodd iawn yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

O ran ein Gwasanaethau Cynllunio, cododd nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol o 42% yn 2013/14 i 47% yn 2014/15 yn rhannol oherwydd gwelliant mewn amgylchiadau economaidd.

**Tai**

Eleni, canran y tenantiaid a oedd yn fodlon ar y Gwasanaeth Dyrannu a Gosod Tai oedd 90.16%, ac roedd 89.89% yn fodlon ar y Gwasanaethau Rhentu yn gyffredinol (gradd da/da iawn). Roedd 75.66% o denantiaid yn fodlon ar gyflwr cyffredinol yr eiddo ac roedd 73.12% yn fodlon ar eu cartref newydd.Mae Swyddogion Cymorth Tenantiaeth yn rhoi cyngor i gartrefi i'w helpu i leihau eu gwariant; bydd hyn yn cynnwys asesiadau a help gyda chyfleustodau megis arbed dŵr.

Yn 2014/15:

- Nifer tenantiaid y cyngor yr effeithiwyd arnynt gan y diwygiadau lles yr ymwelwyd â hwy yn eu cartrefi eu hunain ac a gafodd cyngor a chymorth i leihau effaith y newidiadau oedd 2,309 a nifer tenantiaid y cyngor a gafodd eu hatgyfeirio i gael cyngor ariannol a chyngor ar ddyledion o ganlyniad uniongyrchol i gymorth wyneb yn wyneb ar effaith y diwygiadau lles oedd 187.
- Gwnaethom lwyddo i helpu tenantiaid i sicrhau arbedion ariannol (oherwydd effaith diwygio lles) o £283,152.

Gwnaethom wella mynediad i wasanaethau a chymorth i'r rhai mewn angen, gan ddarparu'n well ar gyfer cymorth wyneb yn wyneb neu gymorth ymweld â'r cartref ac mae'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth wedi tynnu sylw atom fel enghraifft o arfer gorau oherwydd y cymorth rydym yn ei gynnig i'n tenantiaid mewn perthynas â'r diwygiadau lles.

Gwnaethom roi dull darparu gwasanaethau newydd ar waith ar gyfer ein pobl hŷn o fewn ein cynlluniau tai gwarchod a thrwy ddarparu gwasanaeth cymorth fel y bo'r angen i bobl hŷn eraill sy'n byw mewn tai Cyngor yn y cymunedau.

Cyflwynodd y Ddeddf Tai (Cymru) ddeddfwriaeth newydd ar gyfer digartrefedd gyda ffocws cynyddol ar atal digartrefedd a'r gofyniad i Awdurdodau Lleol yng Nghymru roi cymorth a chyngor i bawb sy’n wynebu’r posibilrwydd o fod yn ddigartref. Canran yr holl aelwydydd digartref posibl lle y llwyddwyd i’w hatal rhag bod yn ddigartref am o leiaf 6 mis oedd 91% yn 2014/15 (329 o bobl allan o 362).

Gwnaethom leihau ein dibyniaeth ar y defnydd o lety Gwely a Brecwast at ddibenion digartrefedd drwy hwyluso, mewn partneriaeth, y gwaith o ddatblygu cyfleuster â chymorth newydd sy'n cynnwys 18 o unedau. Llwyddwyd i gael grant tai cymdeithasol gwerth £1.6m er mwyn helpu i gyflawni cynllun eiddo llai o faint sy'n cynnwys 20 eiddo ag un a dwy ystafell wely er mwyn helpu'r aelwydydd hynny yr effeithir arnynt gan y diwygiadau lles. Cynorthwyodd ein rhaglen achub morgeisi barhaus bum teulu i aros yn eu cartrefi a oedd yn wynebu’r posibilrwydd o gael eu hailfeddiannu. Cynorthwywyd 250 o berchenogion cartrefi i wneud gwaith atgyweirio a gwelliannau hanfodol drwy raglen grant, rhaglen atgyweirio grŵp a rhaglen fenthyca'r Cyngor. Cyflwynodd y Ddeddf Tai (Cymru) ddeddfwriaeth sy'n gymwys i'r Sector Rhentu Preifat, sy'n ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid gofrestru a, lle y bo angen, gael hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod yn bobl addas a phriodol i osod eiddo a rheoli tenantiaethau yng Nghymru.

Cwblhawyd ein Hasesiad o'r Farchnad Dai Leol y llynedd ac roedd hwn yn ddarn sylweddol o waith ymchwil i nodi'r galw am dai ac anghenion tai yn ein bwrdeistref, gan gynnwys y math o eiddo, ei faint a'i leoliad. Bydd y wybodaeth hon yn ein helpu i gynllunio ar gyfer darparu cartrefi newydd.

Cwblhaodd y Tîm **Atgyweirio Tai** tua 34,000 o atgyweiriadau y llynedd i stoc dai'r Cyngor, gyda 96% o'r rhain yn cael eu cyflawni drwy apwyntiad ar ddyddiad ac amser a oedd yn gyfleus i'n tenantiaid. Cynhaliwyd mwy o arolygon boddhad cwsmeriaid a nododd fod 98% o denantiaid yn fodlon ar lefel y gwasanaeth a gafwyd.

Adferwyd 1,000 o eiddo gwag er mwyn iddynt gael eu defnyddio eto a sefydlwyd pum swydd brentisiaeth ychwanegol yn 2014/15 (sefydlwyd 7 yn 13-14) fel rhan o'n prentisiaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili er mwyn cynnig cyfleoedd hyfforddi i bobl ifanc gyda'r gobaith o gael swydd barhaol. Cyflwynwyd gwasanaeth gweithiwr cynnal a chadw newydd sydd ar gael i bob tenant dros 60 oed ac i bobl sydd ag anableddau. Mae'r gwasanaeth hwn hefyd yn helpu tenantiaid gyda thasgau DIY yn y cartref.

Cynhaliwyd lefel 'Ymchwilio i amseroedd cymeradwyo ar gyfer Addasiadau i **Dai yn y Sector Cyhoeddus**' am ddwy flynedd yn olynol sef 67 o ddiwrnodau. Mae hyn yn digwydd pan fyddwn yn helpu pobl i addasu eu tŷ er mwyn delio ag amrywiaeth o faterion, megis anabledd. Fodd bynnag, wynebwyd heriau o ran cynnal lefelau uchel o foddhad tenantiaid â chyflwr cyffredinol eu heiddo/cartrefi newydd a mwy o broblemau wrth ymdrin ag ôl-ddyledion rhent o gymharu â 2013/14, felly byddwn yn ystyried ffyrdd o wella hyn ar gyfer y flwyddyn nesaf.

O ran **Tai yn y Sector Preifat** llwyddwyd i gynnal hyd yr amser aros o'r ymchwiliad hyd at yr adeg y cymeradwywn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, am ddwy flynedd yn olynol, sef 156 o ddiwrnodau. Fodd bynnag, cynyddodd nifer y diwrnodau calendr a gymerwyd, ar gyfartaledd, i gwblhau'r gwaith o 292 i 302 o ddiwrnodau. Dengys astudiaeth o'r ffeiliau achos ein bod wedi cyflawni nifer o'r addasiadau mwy cymhleth yn ystod 20141/5, a hefyd rai lle roedd angen gwneud mwy nag un addasiad, er mwyn cynorthwyo'r cleient. Hefyd, roedd gennym achosion llai cymhleth i'w cwblhau eleni yr oedd yn bosibl eu prosesu'n gyflymach. Rydym yn adolygu ein harferion mewn ymdrech i leihau amseroedd aros.

# 2. Y Gyfadran Gwasanaethau Corfforaethol

## Datganiad Perfformiad Cyffredinol ar gyfer 2014/15

Mae'r Gyfadran Gwasanaethau Corfforaethol yn cynnwys nifer o wasanaethau, o rai rheng flaen i'r cyhoedd, megis Gwasanaethau Cwsmeriaid a Budd-daliadau Tai, a meysydd sy'n rhoi cymorth i eraill megis Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) hyd at warchod eiddo ac Adnoddau Dynol i gynorthwyo pobl. Mae gennym hyd at 552 o gyflogeion yn y Gyfadran yn helpu i gefnogi dinasyddion mewn amrywiaeth eang o ffyrdd.

Gwnaethom weithio'n galed i hyrwyddo'r gwaith a wneir gan yr Awdurdod yn 2014/15 gan gynnwys strategaeth ymgysylltu â'r Cyhoedd eang o ran y Cynigion cyllidebol ar gyfer 2015/16. Gwnaethom lansio gwefan gyfoes newydd y mae'n hawdd i'r cyhoedd ei defnyddio, a gobeithio y bydd yn ei gwneud yn haws (ac yn fwy costeffeithiol) i ddinasyddion gael gwybodaeth am wasanaethau'r Awdurdod.

I wella mynediad at wybodaeth bellach, gwnaethom ddechrau gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol ac ers y lansiad byw, mae'r gweddarllediad wedi cael ei wylio 807 o weithiau. Cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) adroddiad ar waith dilynol a wnaed ar yr arolygiad Llywodraethu Corfforaethol ym mis Ionawr 2015. Cydnabuwyd y cynnydd da a wnaed gan yr Awdurdod o ran ei drefniadau llywodraethu a chaiff nifer fach o gynigion nas cyflawnwyd eu cyflawni erbyn diwedd 2015.

Rydym yn cynnal adolygiad llawn o'r trefniadau Craffu (cyfarfodydd lle gall Cynghorwyr ddwyn y sawl sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif) er mwyn gwella'r ffordd y mae hyn yn gweithio.

Un o'r prif heriau nawr ac mewn blynyddoedd i ddod yw'r angen i barhau i ddarparu gwybodaeth ariannol ac arwain mewn perthynas â heriau i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r gostyngiad i Raglen Gyfalaf yr Awdurdod. Mae'r cyfnod o gyni ariannol yn parhau ac, felly, bydd angen gwneud arbedion pellach yn ystod y pedair i'r pum mlynedd nesaf. Bydd yr arbedion hyn yn effeithio ar y modd y darparwn ein gwasanaethau. Dangosodd y sefyllfa alldro ariannol ar gyfer yr Awdurdod ar gyfer 2014/15 fod holl feysydd y Gyfadran yn gwario o fewn y gyllideb. At hynny, pennwyd cyllideb fantoledig gan y Cyngor ym mis Chwefror ar gyfer 2015/16. Felly, mae gennym sail gadarn i symud ymlaen yn ystod cyfnod a fydd yn llawer mwy heriol.

Yn ystod 2014/15, gwnaed cynnydd pellach o ran adeiladu campws cyfrwng Cymraeg Sant Ilan ar gyfer disgyblion 3-18 oed sy'n werth £20m. Disgwylir i'r ysgol hon agor ar amser ac o fewn y gyllideb. Mae nifer o heriau yn ein hwynebu am fod angen lleihau asedau'r Cyngor oherwydd nid yw'r gost o redeg a chynnal a chadw'r asedau hyn yn gynaliadwy. Rydym wrthi'n datblygu rhaglen i symleiddio ein hadeiladau gan ddechrau gyda phenderfyniad y cyngor i gau ein swyddfeydd yn Nhŷ Pontllanfraith gan wneud gwell defnydd o'n hasedau adeiladau.

Rydym wedi datblygu amrywiaeth o bolisïau newydd a'u rhoi ar waith, yn benodol polisïau allweddol sy'n ymwneud â rheoli'r gwaith o leihau'r gweithlu er mwyn sicrhau'r arbedion ariannol sydd eu hangen er mwyn mantoli'r gyllideb. Y costau sy'n gysylltiedig â dileu swyddi a diswyddo staff, fel y'u cofnodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, oedd yr isaf ymhlith yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru, bydd angen gwneud mwy o waith er mwyn rheoli'r broses o leihau'r gweithlu. Credir y bydd angen arbed mwy na 230 o swyddi ond yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

Bu amrywiaeth o wasanaethau yn cydweithio er mwyn helpu i gyflawni Rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru yr Awdurdod sy'n werth £200m. Mae gweithwyr allweddol wedi cael dyfeisiau symudol uwch fel y gallant dreulio mwy o amser y tu allan i'r swyddfa yn darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y cwsmer. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y contractwyr lleol sy'n tendro ac yn llwyddo i gael contractau yn electronig.  Dyfarnwyd contractau gwerth tua £25m i 37 o gontractwyr lleol, a sicrhaodd fanteision cymdeithasol ac economaidd ledled y Fwrdeistref hefyd.  Yn fwy diweddar, rydym wedi helpu i ddatblygu consortia lle mae pedwar contractwr bach lleol wedi cydweithio er mwyn cael gwaith.

Rydym wedi bod yn brysur iawn gyda'n gwaith cydraddoldeb a'r Gymraeg eleni, ac mae rhagor o wybodaeth ar gael yn **www.caerphilly.gov.uk/equalities**.



# 3. Y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol

**Datganiad Perfformiad Cyffredinol y Cyfarwyddwr ar gyfer 2014/15**



Mae'r Gyfadran hon yn cynnwys amrywiaeth o wasanaethau, sy'n effeithio ar fywydau ein holl ddinasyddion, er enghraifft drwy addysgu ein plant yn un o’r 92 o ysgolion, cynnal y parciau neu sicrhau bod y ffyrdd mewn cyflwr diogel bob amser. Eleni, mae'r Gyfadran wedi perfformio'n dda gyda llawer o'n gwasanaethau yn cofnodi gwelliannau cyffredinol. Fodd bynnag, ymhlith y meysydd y bydd angen i ni ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol er mwyn sicrhau ein bod yn gwella yn gyflymach, mae'r canlynol: cyrhaeddiad addysgol, lefelau nofio plant o dan 11 oed a'n perfformiad ym maes ailgylchu.

O ran Addysg, rydym wedi gwella presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd fesul blwyddyn, fodd bynnag, nid ydym yn gwneud cynnydd yr un mor gyflym â gweddill Cymru. Gwnaethom gyflawni 92% ar gyfer y lefel uwchradd yn 2013/14, pan oedd y sgôr yng Nghymru ar gyfartaledd yn 92.6%.

Ni chafwyd unrhyw achosion o wahardd yn barhaol mewn ysgolion cynradd ers dwy flynedd yn olynol, a thros yr 8 mlynedd diwethaf, mae’r tueddiad cadarnhaol o ran gostyngiadau yn nifer yr achosion o wahardd yn barhaol mewn ysgolion uwchradd wedi parhau. Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd gwelwyd gostyngiad yn nifer yr achosion o wahardd am gyfnod penodol yn ogystal â gostyngiad yn nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd achosion o wahardd.

O ran cyrhaeddiad, gwelwyd cynnydd ym mhob Cyfnod Allweddol ym Mathemateg, Cymraeg a Saesneg ac, yn gadarnhaol, mae’r bwlch rhwng y ganran o fechgyn a’r ganran o ferched sy’n cyflawni’r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC), sy’n cynnwys Cymraeg/Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth wedi gostwng yn sylweddol o 8% i 4% yng Nghyfnod Allweddol 4 (15-16 mlwydd oed). Mae nifer y disgyblion sy’n cyflawni Trothwy Lefel 2+ (y 5 TGAU A* - C gynt, gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg) wedi gwella 1.3%, gan bennu targed uchelgeisiol ar gyfer rhagor o welliant yn 2014/15.

Mae’r perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 4 yn ddigonol a chaiff y dangosyddion allweddol eu graddio rhwng safle 17 yng Ngymru (trothwy Lefel 1) a safle 21 (trothwy Lefel 2 a Sgôr Pwyntiau wedi’u Capio). Er bod y perfformiad yn gwella, mae’r gyfradd wella yn golygu bod safle’r Awdurdod yng Nghymru yn cael ei gynnal. Mae perfformiad yn y blynyddoedd cynharach (y Cyfnod Sylfaen) yn dda, ac yn dal i fod yn uwch na’r cyfartaledd yng Nghymru ar gyfer pob dangosydd.

Yng Nghyfnod Allweddol 2 (10 i 11 mlwydd oed) mae’r perfformiad o ran siarad, gwrando ac ysgrifennu mewn Cymraeg a Saesneg yn uwch na’r cyfartaleddau cenedlaethol, ond mae’r perfformiad o ran ysgrifennu ychydig yn is na hynny. Yn Nghyfnod Allweddol 3 (12 i 13 blwydd oed), mae’r canlyniadau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu yn is na’r rhai cenedlaethol, ac mae galw ar ysgolion uwchradd i ddangos gwelliannau yn y maes hwn. Cafodd y gwasanaethau eraill a ddarperir gennym i helpu lles pobl ifanc ddyfarniad da gan Estyn. Mae hyfforddiant diogelu plant o ansawdd uchel yn orfodol ar gyfer pob maes gwasanaeth sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ac mae llawer o gymorth i ddysgwyr er mwyn deall sut i’w cadw’n ddiogel.

Nododd Estyn fod angen lleihau nifer y lleoedd gwag yn ein hysgolion, gan ganolbwyntio'n benodol ar ysgolion uwchradd. Ar gyfer y Sector Ysgolion Cynradd, mae nifer y lleoedd gwag wedi gostwng 5.1 pwynt canran dros gyfnod o dair blynedd o 19.02% yn 2012/13 i 13.92% yn 2014/15. Yn y Sector Ysgolion Uwchradd, arhosodd canran y lleoedd gwag yn ddigyfnewid, yn debyg i 2012/13 a 2013/14, sef 18.62%. Yn 2013/14 cynyddodd y ffigur i 22.76%. Fodd bynnag, mae hyn i'w briodoli i'r penderfyniad i agor safle newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg, sy'n cynnal proses cofrestru disgyblion fesul cam.

Mae nifer y dysgwyr a enillodd gymwysterau Sgiliau Sylfaenol drwy'r gwasanaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned wedi cynyddu o 259 yn 2012/13 i 344 yn 2014/15 ac mae nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan y Gwasanaeth Ieuenctid wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf, sy'n adlewyrchu'r mathau o brosiectau sydd wedi cael eu cyflawni gan y gwasanaeth. Yn 2012 -2013, cyrhaeddodd nifer y cyfranogwyr y man uchaf sef 8376, sy'n cyfateb i 42% o'r boblogaeth 11-19 oed sy’n ymgysylltu â'r gwasanaeth. Yn 2013-14 gostyngodd y ffigur hwn i 34% ac yn 2014/15. Cafwyd ymgais i gynyddu nifer y deilliannau achrededig i bobl ifanc, sy’n dilyn arolygiad Estyn yn 2012.

Yn 2014/15 cyrhaeddodd Gwasanaeth Llyfrgelloedd Caerffili wyth o naw Safon Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, o gymharu â chwech ym mis Mawrth 2013. Cafodd hyn ei ganmol gan Lywodraeth Cymru, fel cynnydd sylweddol a pharhaus a gyflawnwyd drwy gynllunio gofalus a gweithredu cynllun datblygu a oedd yn ymwneud yn agos â gofynion y Fframwaith Safonau. At ddibenion cymharu perfformiadau â pherfformiad awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus eraill yng Nghymru, nifer gyfartalog y Safonau a oedd yn cael eu cyrraedd gan bob awdurdod yn 2014-15 oedd 6.5, y nifer uchaf a gyrhaeddwyd oedd 9, a'r nifer isaf oedd 4. Felly, mae perfformiad Caerffili uwchlaw'r cyfartaledd o'i gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru .

Mae ein **Gwasanaethau Casglu Gwastraff** yng Nghaerffili yn parhau i berfformio'n dda iawn ond rydym yn cydnabod y bydd yn anodd i ni gynnal y lefelau presennol o wasanaeth gyda chyllidebau sy'n lleihau a thargedau llymach fyth i'w cyrraedd. Mewn blynyddoedd blaenorol mae Caerffili wedi cynnal ei safle yn y chwartel sy'n perfformio orau ar gyfer gwastraff trefol a ailddefnyddiwyd neu a ailgylchwyd. Fodd bynnag, yn 2014/15 rhagorwyd ar ein targedau statudol ar gyfer ailgylchu (sef 52%) gyda pherfformiad o 54.58%. Roedd y ffigur hwn yn is na ffigur 2013/14, sef 57.61%, gan ddisgyn o'r 5ed safle i'r 15fed safle yng Nghyfartaleddau Cymru Gyfan. Mae gennym lawer o wastraff ailgylchu sydd wedi'u lygru ac ni ellir ei ddefnyddio, felly rydym yn cychwyn ar ymgyrch llawn amrywiaeth er mwyn addysgu'r cyhoedd. Mae ein perfformiad o ran clirio gwastraff a dipiwyd yn anghyfreithlon wedi gostwng ychydig o 99% i 94% oherwydd problemau technegol sydd bellach wedi'u datrys. Ar nodyn cadarnhaol, mae Glanhau Strydoedd wedi gwella o'r 10fed safle i'r 9fed safle yn System Raddio Cymru Gyfan gyda pherfformiad o 98% unwaith eto.

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn arolwg wyneb yn wyneb o bobl ledled Cymru. Bob blwyddyn, gofynnir i dros 14,000 o bobl 16 oed a throsodd roi eu barn ar amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio arnynt hwy a'u hardal leol. Caiff ymatebwyr eu dewis ar hap er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n gynrychioliadol. Yn gyffredinol, roedd 82% o bobl yn fodlon ar y gwasanaeth casglu gwastraff i'w ailgylchu a ddarperir gan eu cyngor. Roedd hyn yn amrywio o 69% yn Nhorfaen i 88% yng Nghaerffili, sef y lefel uchaf a gyrhaeddwyd gan unrhyw Awdurdod Lleol yng Nghymru.

Mae perfformiad y **Gwasanaeth Parciau a Phrofedigaeth** yn dda ar y cyfan a chydnabyddir hyn gan nifer o gyrff allanol, rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau. Cydnabyddir tri Pharc fel mannau rhagorol gan aseswyr y Faner Werdd ac mae statws y Faner Werdd wedi'i ddyfarnu iddynt. Yn 2014/15, llwyddodd pum lle chwarae i ennill Gwobrau Diogelwch Chwarae yr RoSPA (y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau) unwaith eto. Mae'r gwasanaeth wedi ennill gwobr Efydd am Siarter y Galarwyr a luniwyd ganddo ac a hyrwyddir gan y Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd.

Mae'r **Gwasanaeth Chwaraeon a Hamdden** yn perfformio'n dda yn erbyn mesurau perfformiad cenedlaethol, rhanbarthol a chorfforaethol. Mae Perfformiad Gwasanaethau Awdurdodau Lleol 2013-14 yn nodi bod cael effaith ar iechyd a lles trigolion CBS Caerffili yn her sylweddol. Mae Caerffili yn y chwartel sy'n perfformio waethaf yng Nghymru ar gyfer canran yr oedolion dros bwysau ac yn y chwartel sy'n perfformio waethaf ar gyfer 'oedolion egnïol' (oedolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd bum gwaith yr wythnos neu fwy). Er mwyn effeithio ar y ffigurau hyn bydd angen mabwysiadu dull partneriaeth ar draws nifer o ddarparwyr gwasanaethau yng Nghaerffili. Dengys detholiad o Arolwg Iechyd Cymru (bob dwy flynedd) y canlynol: canran yr oedolion dros bwysau yng Nghaerffili oedd 64% yn 2012, a 62% yn 2014. Mae cyfartaledd Cymru Gyfan rhwng 2003 a 2014 wedi cynyddu o 54% i 58%. Canran yr oedolion a nododd eu bod yn gorfforol egnïol ar 5 diwrnod neu fwy yn ystod yr wythnos diwethaf yng Nghaerffili oedd: 29% (2010), 28% (2012) a 27% (2014). Mae cyfartaledd Cymru Gyfan rhwng 2003 a 2014 wedi cynyddu o 28% i 30%.



Mae ein **Gwasanaethau Peirianneg a Chludiant** wedi cael blwyddyn brysur yn cwblhau'r gwaith canlynol:

- Adfywio Canol Tref Bargod, Diddosi Traphont Trinant, Gwaith ail-leinio Camlas Mynwy ac Aberhonddu
- Cynllun ar gyfer dau gynllun gwella priffyrdd allweddol a ddatblygwyd, sef - cyffordd Crymlyn yr A467/A472 a chyffordd Pwll-y-pant yr A468/ A469 ym Masn Caerffili. Ychwanegwyd 25 o leoedd parcio at gyfleuster Parcio a Theithio Rhymni er mwyn gwneud cyfanswm o 50 o leoedd parcio.

Ein rhwydwaith priffyrdd yw'r ased mwyaf a ddefnyddir fwyaf sy'n eiddo i ni ac mae'n werth tua £1.75 biliwn. O ganlyniad, mae'r gwaith o weithredu a chynnal ased mor fawr sy'n heneiddio yn parhau i fod yn heriol iawn. Mae tywydd gwael fel llifogydd, rhew ac eira yn cael effaith sylweddol ar y maes gwasanaeth. Mae llawer o'n gwaith yn ymatebol ac yn anodd iawn i'w gynllunio. Oherwydd anawsterau gyda'r gyllideb, cafwyd ymgais i leihau'r effaith y gall cyllidebau cyfyngedig ei chael drwy ddefnyddio mwy o ddulliau diogelu. Yn 2014/15, rhoddwyd wyneb newydd ar 6.7% o'r prif rwydwaith ffyrdd. Rhoddwyd wyneb newydd ar 98km o lonydd cerbydau yn 2014/15 o gymharu â 76km yn 2013/14. Cafodd 7,324 o dyllau ffordd eu llenwi y llynedd hefyd o gymharu â 9,293 y flwyddyn flaenorol. Canran y ffyrdd a oedd mewn cyflwr gwael oedd 7%, sy'n welliant ar y llynedd ac sy'n ein gosod yn uwch na Chyfartaledd Cymru Gyfan, sef 11.9%.

Tra'n aros am ganlyniadau Arolwg Cartrefi 2015, mae canlyniadau o'r arolwg cartrefi diweddaraf yn dangos tuedd tuag i fyny ym marn y cyhoedd o'n priffyrdd. O ystyried yr heriau a wynebwyd mae'n amlwg bod perfformiad yn dal i fod yn dda yn y maes hwn. Cafwyd newid graddol sylweddol ym marn y cyhoedd rhwng 2011 a 2013 mewn perthynas â gwaith cynnal a chadw yn y gaeaf (i fyny 23%), cyflwr wynebau ffyrdd (i fyny 15%), cyflwr wynebau palmentydd (i fyny 11%) a draenio (i fyny 9%) ynghyd â gwelliannau eraill a wnaed i arwyddion a marciau ffordd a phrosesau rheoli priffyrdd.

Cafodd goleuadau stryd eu gwella ymhellach yn ystod 2014/15 pan sicrhawyd £74,093 pellach o gyllid, a'n galluogodd i osod 1,000 o lampau effeithlonrwydd ynni ychwanegol, gan ychwanegu at y 2,000 a osodwyd dros y blynyddoedd blaenorol. Cofnodwyd lefelau boddhad cwsmeriaid uchel iawn o 89% ar gyfer goleuadau stryd. Rydym yn dal i osod goleuadau LED newydd yn lle'r hen oleuadau llai effeithlon fel rhan o'n rhaglen adnewyddu yn 2014/15.

Bydd ymarfer ail-dendro mawr ar gyfer contractau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol/coleg eleni yn arbed tua £400,000 bob blwyddyn. Mae buddsoddi mewn cerbydau newydd ar gyfer cludiant Gwasanaethau Cymdeithasol wedi lleihau costau cynnal a chadw cerbydau tua £70,000. Defnyddiodd mwy o bobl y rhwydwaith bysiau lleol â chymhorthdal eleni, yn groes i dueddiadau cenedlaethol, a gwelodd rhwydwaith dydd Sul yn benodol dwf o bron 50% ers 2011, a sicrhawyd drwy adolygu'r rhwydwaith a mabwysiadu strategaeth marchnata a chyhoeddusrwydd gynhwysfawr. Gwnaed newidiadau i lwybrau bysiau yn y fwrdeistref sirol ar ôl gostyngiad o 27% mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru. Er gwaethaf y gostyngiadau ni chafwyd llawer o effaith ar deithwyr hyd yma.

# 4. Y Gyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol

## Datganiad Perfformiad Cyffredinol ar gyfer 2013/14



Mae Gwasanaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yma i helpu unrhyw drigolion sy'n ei chael hi'n anodd mwynhau bywyd o ansawdd derbyniol oherwydd cyflyrau meddyliol a chorfforol a ddioddefir ganddynt hwy neu eu hanwyliaid. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaethau Iechyd, yr Heddlu a llawer o sefydliadau allweddol eraill er mwyn gwella ansawdd bywyd ein dinasyddion, p'un a ydynt yn Oedolion neu'n Blant. Mae'r partneriaethau hyn yn elfennau hanfodol o'r broses o ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol o ansawdd uchel oherwydd maent yn darparu'r cymorth a'r arbenigedd eilaidd sydd eu hangen yn aml ar gleientiaid Gwasanaethau Cymdeithasol. Rydym yma i helpu pobl, eu cadw'n ddiogel ac yn annibynnol a sicrhau eu bod yn manteisio'n llawn ar fywyd.

Mae **Gwasanaethau Plant** yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, mewn partneriaeth â llawer o asiantaethau a sefydliadau gwirfoddol eraill. Ein nod cyffredinol yw cefnogi a diogelu plant o fewn eu teuluoedd, lle bynnag y gellir gwneud hynny heb beri risg y cânt eu niweidio. Eleni, rydym wedi ail-gyflunio model a elwir yn Dîm o Amgylch y Teulu (sy'n grŵp o weithwyr proffesiynol amlasiantaeth sy'n helpu pobl ifanc a'u teuluoedd) ac wedi'i uno â Phrosiectau 'Cefnogi Newidiadau Teulu'. Mae'r ddau bellach yn cael eu rheoli gan un rheolwr ac mae hyn yn golygu bod gweithwyr cymorth o fewn y tîm bellach yn gallu cael eu pennu'n weithwyr proffesiynol arweiniol a rhoi cymorth un i un i deuluoedd. Gelwir y tîm newydd yn 'Cefnogi Newidiadau Teulu'.

Ym mis Mehefin 2014 unodd Tîm Dyletswydd a Gwybodaeth Gwasanaethau Oedolion a Thîm Cysylltu ac Atgyfeirio Gwasanaethau Plant i ffurfio prif bwynt cyswllt ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n ei gwneud yn haws i bobl sy'n defnyddio ein gwasanaeth gysylltu â ni. Ym mis Medi 2014, cyflwynwyd cynnig a fyddai'n arwain at greu Gwasanaeth Integredig ar gyfer Plant a Phobl Ifanc Anabl. Ers hynny, rhoddwyd cynlluniau ar waith er mwyn cydleoli'r Tîm Plant ag Anabledd yn y Ganolfan Blant erbyn diwedd y flwyddyn galendr er mwyn ei gwneud yn haws i bobl gael gafael ar wasanaethau a hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth a sgiliau ar draws ffiniau proffesiynol. Mae angen buddsoddi yn y seilwaith TG er mwyn helpu'r Tîm i symud ond bydd y manteision hirdymor yn drech o lawer na'r costau uniongyrchol. Gan adeiladu ar lwyddiant y Gwasanaeth Integredig ar gyfer Plant ag Anghenion Ychwanegol (ISCAN), cynigir y dylid datblygu un pwynt cyswllt/siop un stop i deuluoedd, rhieni a gofalwyr y bydd ganddo/ganddi gysylltiadau cryf â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, y Gwasanaeth Cysylltu ac Atgyfeirio a'r Gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf. Caiff pob atgyfeiriad ar gyfer gwasanaethau anabledd ei ystyried gan ISCAN er mwyn lleihau dyblygu a sicrhau y caiff adnoddau eu defnyddio'n effeithiol.

Mae **Gwasanaethau Oedolion** yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau arbenigol i aelodau o'r gymuned dros 18 oed sy'n wynebu anawsterau o ddydd i ddydd oherwydd problemau sy'n amrywio o anabledd corfforol neu synhwyraidd i gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag oedolion, gofalwyr a sefydliadau allweddol i drefnu'r pecyn gofal mwyaf priodol er mwyn galluogi rhai o'r aelodau o'n cymuned sydd fwyaf agored i niwed fyw mor annibynnol â phosibl drwy ddarparu gwasanaethau preswyl, gofal dydd a gofal cartref.

O fewn Gwasanaethau Oedolion mae'r adolygiad o Raglen Eiddilwch Gwent wedi cadarnhau'r cyfeiriad teithio a'r ffocws ar atal unigolion rhag cael eu derbyn i'r ysbyty drwy ymyrraeth gyflym gan y gwasanaeth Iechyd a'r gwasanaeth Gofal Cymdeithasol. O ganlyniad cychwynnodd cynllun peilot ar ddechrau 2014 a oedd yn ymwneud â datblygu Uned Pobl Eiddil Oedrannus yn Ysbyty Ystrad Fawr ar gyfer ymyrraeth gyflym gan staff y Tîm Adnoddau Cymunedol. Yn dilyn adolygiad o'r cynllun peilot, sefydlwyd Uned Pobl Eiddil Oedrannus ac mae'n gweithredu'n llwyddiannus.

Datblygwyd y Fenter Iechyd Meddwl beilot ‘Gwrando, Ymgysylltu, Gweithredu a Chyfranogi’ (LEAP) yng ngogledd y fwrdeistref sirol er mwyn profi ffyrdd newydd o weithio gyda phobl ag anghenion iechyd meddwl. Mae tîm amlasiantaeth sy'n cynnwys amrywiaeth eang o gymwyseddau wedi'i sefydlu gydag egwyddor o weithio gydag unigolion mewn ffyrdd gwahanol, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt hwy a phennu canlyniadau sy'n gysylltiedig â hyn. Mae bellach yn ail gam y cynllun peilot, roedd y cam cyntaf yn llwyddiannus a lluniwyd adroddiad interim i lywio'r ail gam. Ar ddiwedd yr ail gam, bydd adroddiad gwerthuso terfynol yn llywio ffurf gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion yn y dyfodol. Credwn y bydd y fenter hon yn ein helpu i gael dealltwriaeth well o’r math o wasanaethau a sgiliau a fydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl yn y dyfodol, er nad oes modd bod yn sicr o hynny ar hyn o bryd.

Ymhlith y data perfformiad allweddol ar gyfer 2014/15 nodwyd mai’r gyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal (fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd) am resymau sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol oedd 4.54, sy’n well na 11.99 y llynedd, gan ein symud o'r 22ain safle yng Nghymru i'r 13eg safle. Cwympodd cyfradd y bobl hŷn a gefnogir yn y gymuned i 109 (ystyrir bod cyfradd uwch yn well), fodd bynnag, dylid ystyried bod hyn yn gadarnhaol o safbwynt Caerffili gan fod ein gwasanaeth yn canolbwyntio ar gyfeirio pobl at wasanaethau cymunedol a chynyddu'r defnydd o wasanaethau i bobl eiddil. O ran gwasanaethau plant, cwympodd canran y bobl ifanc a arferai dderbyn gofal sydd mewn addysg neu gyflogaeth o 60% i 55%, ond cynyddodd sgôr canlyniadau arholiadau ein Plant sy’n Derbyn Gofal o 238 i 322 yn 2014/15.

**Gwelliant mewn Perfformiad 2014/15 o flwyddyn i flwyddyn o’i gymharu â 2013/14**

| | Nifer | Gwell | | Gwaeth | | Cynnal | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | **18** | **4/18** | **22%** | **12/18** | **67%** | **2/18** | **11%** |
| Oedolion | 7 | 2/7 | 29% | 5/7 | 71% | | |
| Plant | 11 | 2/11 | 18% | 7/11 | 64% | 2/11 | 18% |

**Amddiffyn y Cyhoedd**

Mae ein **Gwasanaeth Cofrestru** yn parhau i gyflawni targedau cenedlaethol neu ragori arnynt ac mae'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol wedi llongyfarch y gwasanaeth ar y perfformiad a gyflawnwyd a'r safonau a gyrhaeddwyd yn ystod 2014/15. Mae lefelau boddhad cwsmeriaid â'r gwasanaeth yn dal i fod yn uchel iawn gyda 100% o gwsmeriaid yn nodi eu bod wedi cael lefel dda Iawn o wasanaeth a 94% yn nodi ei fod yn Rhagorol. Parhaodd y prosiect i ddigideiddio'r mynegeion ar gyfer Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau o 1837 ymlaen yn ystod y flwyddyn ac mae'r mynegeion ar gyfer Genedigaethau a Phriodasau bellach wedi'u cwblhau a Marwolaethau hyd at 1910. Mae hyn yn lleihau amser cefn swyddfa yn chwilio am dystysgrifau hanesyddol ac yn galluogi cwsmeriaid i chwilio drwy fynegeion ar ein gwefan.

Ymdriniodd y **Gwasanaeth Safonau Masnach** â 1,793 o geisiadau am gyngor manwl yn ystod 2014/15. Caiff cwynion cwsmeriaid eu dosbarthu yn ôl sector masnach a gwelliannau i'r cartref a cheir ail-law yw prif ffynhonnell cwynion o hyd, a hynny o bell ffordd. Cyfanswm gwerth yr holl nwyddau a gwasanaethau y gwnaed cwynion yn eu cylch ar gyfer y flwyddyn ariannol oedd £1,769,054. Cafodd dros 40 o gamau gweithredu ffurfiol (erlyniadau, rhybuddion syml a Hysbysiadau Cosb Benodedig) eu cymryd y llynedd. Cyflawnwyd y targedau ar gyfer pryniannau prawf gan blant dan oed ar gyfer alcohol a chynhyrchion eraill yn 2014/15. Cwblhaodd timau Safonau Masnach 100% o archwiliadau risg uchel ar gyfer safonau bwyd ac iechyd anifeiliaid yn ystod y flwyddyn.

Mae'r **Gwasanaeth Trwyddedu** yn cael tua 1500 o geisiadau am drwydded bob blwyddyn. Yn ystod 2014/15 gwelodd y gwasanaeth gynnydd digynsail yn y galw am geisiadau am drwyddedau Cerbydau Hackney gan ymgeiswyr y tu allan i'r Sir oherwydd achos prawf diweddar. Arweiniodd hyn at rai cwynion ynghylch amseroedd aros am apwyntiadau. Cyflwynwyd nifer o newidiadau i'r gofynion, y polisïau a'r gweithdrefnau ynglŷn â gwneud ceisiadau, er mwyn ymdrin â'r sefyllfa. Mae'r Gwasanaeth yn trwyddedu gyrwyr cerbydau hackney a llogi preifat, cerbydau a gweithredwyr er mwyn sicrhau trafnidiaeth gyhoeddus glân, diogel, dibynadwy a chyfforddus i'r cyhoedd sy'n talu’r ffioedd. Er mwyn hyrwyddo amcanion a rhwymedigaethau'r Cyngor o ran diogelwch cyhoeddus mae nifer o newidiadau polisi hefyd wedi'u cyflwyno yn ystod y flwyddyn gan gynnwys Prawf Gwybodaeth, Safonau Cerbydau wedi'u diwygio a gofynion Ffitrwydd Meddygol wedi'u diweddaru.

Cydymffurfiodd ein **Gwasanaethau Arlwyo** yn llwyr â chynllun Blas am Oes Llywodraeth Cymru a rheoliadau sy'n ymwneud â bwyta'n iach mewn ysgolion. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae nifer y disgyblion cynradd ac uwchradd sy'n talu am brydau ysgol wedi cynyddu ychydig. Fodd bynnag, rydym yn dal i weithio tuag at ein targed o ran nifer y disgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim. Rydym wedi rhoi ymgyrch i hyrwyddo prydau ysgol am ddim ar waith, sydd wedi cynyddu nifer y disgyblion sy'n eu hawlio.

O fewn ein **Tîm Iechyd Amgylcheddol** cwblhawyd pob un o'r archwiliadau rhaglenedig o fusnesau bwyd risg uchel i asesu hylendid a diogelwch bwyd a phob archwiliad iechyd a diogelwch risg uchel yn ystod 2014/15. Mae'r broses barhaus o roi'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ar waith a'r gofyniad i arddangos sgoriau hylendid wedi gwella safonau hylendid bwyd ymhellach. O’r 1,503 o sefydliadau bwyd a oedd yn masnachu yn 2014/15, roedd 1,423 yn cydymffurfio'n fras â gofynion diogelwch bwyd gan roi perfformiad o 95% (gwelliant o gymharu â 92% y llynnedd), ac ychydig yn uwch na’r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan, sef 94%. Yn 2014 cafodd y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ei ymestyn i gynnwys safleoedd masnachu busnes i fusnes e.e. gweithgynhyrchwyr. Cafodd tri achos eu dwyn yn erbyn tatŵyddion/tyllwyr corff anghofrestredig hefyd, dan ddyletswyddau statudol newydd sy'n diogelu'r cyhoedd a'r amgylchedd yn y dyfodol.

Mae **Swyddogion Gorfodi** wedi bod wrthi'n sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth ynglŷn â baeddu gan gŵn, taflu ysbwriel a thipio anghyfreithlon gyda 44 o hysbysiadau cosb benodedig yn cael eu cyflwyno am faeddu gan gŵn a 268 am daflu ysbwriel. At hynny, cafwyd 10 erlyniad am faeddu gan gŵn a thaflu ysbwriel a 10 erlyniad am droseddau yn ymwneud â thipio anghyfreithlon yn ystod y flwyddyn. Bu'r tîm hefyd yn gweithio gyda Fforwm Iau Caerffili ar ymgyrch bosteri i atal baeddu gan gŵn.

Yn ystod 2014/15 parhaodd y **Tîm Gwella Iechyd** i arwain yr ymateb lleol i Her Iechyd Cymru a Newid am Oes yn ogystal â chyflawni'r rhaglen Ysgolion Iach. Mae gwaith o'r fath yn cynnwys mentrau sy'n ymwneud â'r heriau iechyd mwyaf cyffredin gan gynnwys, ysmygu, gordewdra, gweithgarwch corfforol a chamddefnyddio sylweddau. Rydym yn arwain y ffordd o ran recriwtio a hyfforddi hyrwyddwyr iechyd cymunedol.

Mae'r **Tîm Cynllunio at Argyfwng** wedi arwain a chydgysylltu trefniadau cynllunio parhad busnes ym mhob rhan o'r Cyngor er mwyn sicrhau y caiff yr effaith ar wasanaethau hanfodol y Cyngor ei lleihau i'r eithaf os terfir ar fusnes.

Daeth adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, "Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion", i'r casgliad bod y Cyngor yn darparu'r rhan fwyaf o'i wasanaethau iechyd yr amgylchedd ar y lefelau uchaf ond oherwydd toriadau i adnoddau a barn gymysg ar ansawdd y gwasanaethau presennol, bydd y Cyngor yn ei chael hi'n anodd ymgymryd â dyletswyddau statudol newydd sy'n diogelu'r cyhoedd a'r amgylchedd yn y dyfodol.

# Crynodeb o’r ffordd y gwnaethom berfformio yn erbyn ein blaenoriaethau yn 2014/15

## (a elwir yn Amcanion Gwella)

## Ein Hamcan - Sicrhau y caiff plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal eu helpu i gyflawni eu llawn botensial (AG1)

- Nodwyd y byddem yn gwneud y canlynol: Parhau i recriwtio digon o ofalwyr maeth er mwyn diwallu anghenion ein Plant sy'n Derbyn Gofal a cynyddu lefelau cyrhaeddiad addysgol pob Plentyn sy'n Derbyn Gofal. Roeddem yn gobeithio lleihau'r ddibyniaeth ar leoliadau Asiantaethau Maethu Annibynnol a chyflymu’r gwaith o sicrhau y caiff plant y mae angen lleoliadau mabwysiadol arnynt yn cael eu paru a'u lleoli â theuluoedd mabwysiadol. Ymgysylltu’n well â phobl ifanc sy’n gadael gofal er mwyn rhoi’r cyfleoedd gorau iddynt a gwella’r amrywiaeth o opsiynau llety ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal a'r rhai sy'n wynebu bod yn ddigartref.
- Ein hasesiad cyffredinol - **Llwyddiannus** rydym wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran helpu ein plant a phobl ifanc dros y 12 mis diwethaf

## Yr hyn a wnaethom yn dda

Mae'r tîm maethu yn parhau i recriwtio darpar ofalwyr maeth a thros y cyfnod o dair blynedd y mae hyn wedi bod yn Amcan Gwella i ni, rydym wedi recriwtio 33 o ofalwyr newydd sydd gryn dipyn yn uwch na'r targed gwreiddiol, sef 25. Bu Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru yn llwyr weithredol ers mis Ebrill 2014 ac mae arferion gwaith bellach yn sefydledig. Rydym wedi llwyddo i leoli 12 o blant i'w mabwysiadu yn ystod 2014/15 sy'n rhagori ar y targed gwreiddiol, sef 3. Dros gyfnod o dair blynedd, mae 53 o blant wedi'u mabwysiadu.

Mae cyrhaeddiad academaidd yn gyffredinol wedi gwella gyda sgôr pwyntiau gyfartalog cymwysterau allanol yn cynyddu o 238 yn 2013/14 i 322 ar gyfer y flwyddyn bresennol.

Gan weithio'n agos gyda'r gwasanaeth Tai a Chefnogi Pobl, mae'r Tîm 16+ yn parhau i nodi a datblygu amrywiaeth eang o opsiynau llety ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal a phobl ifanc 16/17 oed sy'n ddigartref. Mae perfformiad hyd yma yn cadarnhau bod pob person ifanc sy'n hysbys i Wasanaethau Plant yn cael ei roi mewn llety priodol sy'n diwallu ei anghenion a nodwyd.

## Yr hyn nad aeth cystal a meysydd i'w gwella

Bydd angen cynnal perfformiad yng nghyd-destun toriadau posibl yn y gwasanaeth. Bydd y broses o roi'r Strategaeth Recriwtio Gofalwyr Maeth ddiwygiedig ar waith yn parhau i gael ei monitro'n ofalus er mwyn sicrhau y caiff nifer ddigonol o ofalwyr eu cymeradwyo er mwyn ateb y galw.

## Beth oedd y canlyniad

- Mae nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal wedi lleihau ac wedi sefydlogi.
- Mae nifer y plant ar y gofrestr Amddiffyn Plant yn parhau'n sefydlog.
- Mae nifer y gofalwyr maeth a recriwtiwyd dros gyfnod yr Amcan Gwella hwn wedi rhagori ar y targed a bennwyd.
- Bu Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru (SEWAS) yn llwyr weithredol yn ystod y flwyddyn a thrwy gydweithio effeithiol, trylwyr mae nifer fach o blant a oedd wedi bod yn aros am leoliadau mabwysiadol wedi'u lleoli'n llwyddiannus.
- Mae gan 94% o Blant sy'n Derbyn Gofal Gynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod i ddechrau yn yr ysgol – mae'r perfformiad hwn wedi'i gynnal o 2013/14.

Mae'r Amcan hwn bellach yn rhan o'n gwaith beunyddiol. Mae'r camau gweithredu a'r amcanion wedi bod yn llwyddiannus, felly mae'r Amcan hwn wedi cau ac ni chaiff ei gario ymlaen ar gyfer 2015/16.

**Ar Gau**

## Ein Hamcan – Gwella cyfleoedd swydd drwy roi Cynlluniau Pasbort y Cyngor ar waith (AG2)

Roeddem am barhau i weithredu Rhaglen Pasport y Cyngor sydd â'r nod o helpu pobl ifanc 16-24 oed ym mwrdeistref Caerffili i gael gwaith drwy fanteisio ar gyfleoedd i gael profiad gwaith a hyfforddiant. Byddai hyn yn helpu'r Cyngor i ateb her ei fwlch sgiliau posibl ei hun yn y dyfodol ym mhob rhan o'r sefydliad. Roeddem yn awyddus i gynorthwyo partneriaid a phartneriaid yn y sector preifat sy'n dweud wrthym bod ganddynt gyfleoedd gwaith ond na allant ddod o hyd i'r bobl â'r sgiliau a'r wybodaeth gywir i ymuno â'u busnes.

Ein hasesiad cyffredinol - **Llwyddiannus**

### Yr hyn a wnaethom yn dda a’r canlyniad

Gellir mesur llwyddiant y rhaglen gan y ffaith bod cyfanswm o 80% o bobl ifanc wedi cwblhau eu lleoliad Haen 2 (lleoliad â thâl Twf Swyddi Cymru) gan gyflawni canlyniad cadarnhaol.

Ar 31 Mawrth 2015, dilynodd 249 o bobl ifanc y model cyflawn a chafodd 199 o'r rhain ganlyniad llwyddiannus. Mae 83 yn gweithio gyda sefydliadau allanol a 112 gyda Chyngor Caerffili ac mae pedwar wedi dychwelyd i addysg.

Hefyd yn ystod y flwyddyn gwnaethom gyflawni/rhagori ar ein targedau:

- Dywedwyd y byddem yn creu o leiaf 150 o brofiadau gwaith yn ystod y flwyddyn ac yn ystod 2014/15 crëwyd 154.
- Crëwyd 25 o gyfleoedd ar gyfer prentisiaethau.
- Ein bwriad oedd creu 40 o gyfleoedd cyflogaeth a chrëwyd 51 yn ystod y flwyddyn.

Yn gyffredinol, mae 100% o gyfranogwyr bellach yn teimlo eu bod yn fwy parod ar gyfer gwaith ar ôl cymryd rhan yn y Rhaglen Pasbort.

### Yr hyn nad aeth cystal a meysydd i’w gwella

Ym mis Rhagfyr 2014 daeth arian ar gyfer y cynllun o Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Twf Swyddi Cymru i ben, felly nid oedd yn bosibl cynnig y cynllun ar gyfer chwarter olaf y flwyddyn.

Serch hynny, gwnaethom gyflawni ein targedau blynyddol ar gyfer 2014/15 a rhagori arnynt.

Nid oes unrhyw feysydd o ran perfformiad gwael lle mae angen i ni wneud yn well. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, daeth yr arian ar gyfer y cynllun i ben ym mis Rhagfyr 2014, felly mae angen ystyried cyfleoedd rhanbarthol ar gyfer sefydlu'r rhaglen hon a rhannu ei llwyddiant yn y dyfodol.

Mae’r amcan hwn wedi’i gwblhau a’i gau gennym am y tro. Mae’r arian ar gyfer y cynllun wedi dod i ben felly ni allwn ei gario ymlaen i 2015/16.

***Ar Gau***

## Ein Hamcan – Datblygu gwasanaeth ieuenctid effeithiol a hygyrch sy'n ategu datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc (AG3)

Nodwyd y byddem yn gwneud y canlynol:

Cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r Gwasanaeth Ieuenctid er mwyn nodi meysydd arfer gorau a meysydd i'w gwella. Ar ôl yr adolygiad byddwn yn ystyried gweithredu ffyrdd o wella'r gwasanaeth. Rydym yn awyddus i gynnig i gynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu ac achredu ffurfiol ac anffurfiol ym mhob gwasanaeth ieuenctid drwy gydweithio â gwasanaethau eraill sy'n darparu ar gyfer y grŵp oedran hwn a chynyddu nifer y bobl ifanc sy'n manteisio ar gyfleoedd dysgu.

Rydym o'r farn bod yr Amcan Gwella hwn yn **Llwyddiannus,** oherwydd:

Cwblhawyd pob cam gweithredu ac, ar y cyfan, mae ein dangosyddion perfformiad yn cyflawni'r targedau a bennwyd gennym. Mae'r unig eithriad yn ymwneud â dangosydd cenedlaethol sy'n nodi nifer y disgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster allanol cymeradwy. Mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg wedi ymgymryd â'r rôl o herio pob ysgol uwchradd i wella perfformiad, sy'n cynnwys y mesur hwn.

Gall arferion gwaith ieuenctid effeithiol feithrin gallu a gwydnwch pobl ifanc, a thrwy ddysgu anffurfiol a ffurfiol, sy'n cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol, mae Gwasanaethau Ieuenctid yn helpu pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau a'r rhinweddau y bydd eu hangen arnynt pan fyddant yn oedolion.

## Yr hyn a wnaethom yn dda

Mae'r gwelliannau a wnaed rhwng 2013 a 2015 wedi gosod sylfaen gadarn er mwyn i ni allu parhau i ddatblygu arferion gwaith ieuenctid effeithiol. Mae hwn yn faes gwaith pwysig i'r Awdurdod a chydnabuwyd bod dull cydgysylltiedig o helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial yn faes i'w ddatblygu'n barhaus. Llwyddwyd i gynyddu nifer yr ymweliadau â phobl ifancach o 64,033 yn 2013/14 i 71,541 yn 2014/15, sef cynnydd o 8.2 ymweliad fesul defnyddiwr cofrestredig, ar gyfartaledd, yn 2013/14 i 11.3 yn 2014/15.

## Yr hyn nad aeth cystal a meysydd i’w gwella

Nid oes unrhyw feysydd pwysig penodol i'w gwella o ran yr amcan hwn heblaw am y gwaith o gynyddu nifer y disgyblion sy'n parhau i fanteisio ar gyfleoedd dysgu ac rydym yn cydnabod bod y dangosydd cenedlaethol sy'n nodi nifer y disgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster allanol cymeradwy, hyfforddiant na dysgu yn seiliedig ar waith wedi cynyddu ychydig o 0.4% i 1%. Cyfrifwyd y ffigur hwn ar sail 22 o bobl a adawodd yr ysgol heb gymhwyster o garfan o 2,152.

## Beth oedd y canlyniad?

Er i’r amcan hwn gael ei gyflawni (rhoddwyd y strategaeth ar waith), caiff elfennau o’r gwaith hwn eu cofnodi hefyd fel rhan o'r gyfres newydd o Amcanion Gwella, y mae un ohonynt yn canolbwyntio ar wella deilliannau i bob dysgwr, yn enwedig y rhai sy'n wynebu risg o dangyflawni. Golyga hyn y bydd y gwaith yn parhau mewn meysydd eraill.

Cwympodd canran y bobl ifanc 16 oed nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET) i 3.5% ym mis Hydref 2014, sef gostyngiad o 0.9% o gymharu â ffigurau’r flwyddyn flaenorol, sef 4.4%. Ystyrir bod ffigurau is yn well o ran y data hwn ac mae hyn yn nodi ein bod yn helpu i ostwng nifer y bobl ifanc a gaiff eu hystyried yn NEET. Fodd bynnag, y cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan yw 3.1%, felly er ein bod wedi diwallu’r amcan hwn, mae gwaith i’w wneud o hyd o ran gwella’r mater hwn fel rhan o’n gwaith beunyddiol.

**Ar Gau**

## **Ein Hamcan –** Gwella'r amrywiaeth o gyfleusterau hamdden, cymunedol a chwaraeon, mynediad iddynt ac ymwybyddiaeth ohonynt yn ein bwrdeistref **(AG4)**

Ein gweledigaeth yw sicrhau bod mwy o bobl yn fwy egnïol, yn fwy aml, felly nodwyd y byddem yn gwneud y pethau canlynol:

Sicrhau bod mwy o bobl yn ymwybodol o'r cyfleusterau hamdden a'r rhaglenni gweithgarwch sydd ar gael iddynt ac adeiladu cyfleusterau chwaraeon newydd sy'n darparu ar gyfer pob rhan o'r gymuned. Byddai pob cyfleuster yn cael ei gynnal a'i gadw i safon ardderchog a byddai gan bobl ddewis o gyfleusterau a rhaglenni o ansawdd da i ddiwallu eu hanghenion unigol. Yn y pen draw, byddai mwy o bobl yn ymweld â'n cyfleusterau chwaraeon a hamdden.

Rydym o'r farn bod yr Amcan Gwella hwn yn **Rhannol Lwyddiannus** oherwydd gwnaed cynnydd da yn erbyn pob un o'r camau gweithredu yn gyffredinol. Dengys ein cynnydd yn ystod 2014/15 yn glir fod ein cyfleusterau wedi gwella a bod lefelau cyfranogiad wedi cynyddu. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod angen gwneud mwy, o fewn y cyfyngiadau presennol sydd ar adnoddau. Er bod cyllidebau gwasanaethau dan bwysau, mae cryn dipyn o arian cymorth grant wedi'i sicrhau er mwyn helpu i gefnogi mentrau gwasanaethau a mentrau cymunedol. Mae'r arian grant hwn wedi arwain at well cyfleusterau a darpariaeth ar gyfer grwpiau dan anfantais.

## Yr hyn a wnaethom yn dda

Eleni mae ein cydweithredu rhanbarthol fel rhan o 'Active Gwent' wedi bod yn arbennig o lwyddiannus o ran ein helpu i ddatblygu ein 'Thriving Clubs'. Mae'r cynllun hwn yn darparu cymorth i helpu i gynyddu nifer yr aelodau sydd gan Glybiau Cymunedol ledled ein Bwrdeistref Sirol. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr aelodau sy'n cyfranogi a gwelliannau o ran ansawdd y ddarpariaeth ar lefel Clybiau Cymunedol. Mae nifer yr aelodau mewn rhai clybiau wedi treblu. Un enghraifft yw Clwb Athletig Cwm Rhymni a oedd ar fin cau gyda dim ond 10 aelod yn flaenorol ond sydd bellach â dros 100 o aelodau cofrestredig yn hyfforddi ac yn cystadlu bob wythnos. Bydd angen ehangu cynllun 'Thriving Clubs' bellach. Y gobaith yw y bydd hyn yn helpu i gyfrannu at gynyddu cyfranogiad mewn clybiau chwaraeon dros y tymor hwy.

Gwnaethom fuddsoddi mewn stiwdio droi newydd ac ystafelloedd newid wedi'u gwella yng Nghanolfan Hamdden Heolddu, ystafell ffitrwydd ac ystafell iechyd newydd yng nghanolfan Hamdden Rhisga a champfa newydd yn Nhrecelyn. Yn sgil agor y Ganolfan Rhagoriaeth mewn Chwaraeon newydd mae cyfle unigryw i nodi a chefnogi'r genhedlaeth nesaf o athletwyr elît. Rydym am sicrhau bod pob chwaraewr yn cael y cyfle a'r gefnogaeth i chwarae dros Gymru. Mae amrywiaeth o raglenni ar waith er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r nod hwn, ac mae'r rhaglenni hyn yn cael eu cefnogi gan Glwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, y Dreigiau a Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol eraill. Rydym yn defnyddio technegau cyfryngau cymdeithasol newydd er mwyn gwella ein neges gyfathrebu i drigolion. Mae gennym dros 1,500 o ddilynwyr ar Twitter a 1,600 o ffrindiau ar Facebook. Mae ein dulliau arloesol yn cael eu defnyddio i hyrwyddo manteision ffordd egnïol o fyw yn barhaus i'n cynulleidfa darged.

## Yr hyn nad aeth cystal a meysydd i'w gwella

Dim ond 53% o blant 11 oed a oedd yn gallu nofio 25 metr, pan oeddem wedi pennu targed o 63.5% i ni ein hunain ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn gryn dipyn yn is na'r targed cenedlaethol ac yn llai na'n perfformiad yn y flwyddyn flaenorol (2013/14). Rydym yn cydnabod bod angen i ni wella ein darpariaeth ddyfrol ac mae newidiadau sylweddol yn cael eu cyflwyno mewn ymdrech i wella'r tanberfformio presennol. Bydd cyflwyno'r dull newydd hwn o weithredu yn sicrhau, yn y dyfodol agos, y bydd pob plentyn yn gallu nofio pan fyddant yn gadael yr ysgol gynradd.

Y prif faes y dylid canolbwyntio ar ei wella yw nofio, yn enwedig rhaglen nofio a gwersi'r ysgolion.

Rydym wedi cyflwyno mentrau newydd a fydd yn cael canlyniadau cadarnhaol yn y tymor hwy. Eleni cafodd ein rhaglen gwersi dwys newydd ei chyflwyno fesul cam. Mae disgyblion bellach yn nofio ym mlwyddyn 3 a blwyddyn 4 er mwyn sicrhau eu bod yn dechrau dysgu yn ifancach. Mae pob gwers yn cael ei chyflwyno gan athrawon nofio cymwys ac mae'r cynllun cyflwyno gwersi hefyd yn gyson ar draws pob canolfan, o fewn gwersi ysgolion a rhaglenni nofio'r canolfannau hamdden.
Bu'r rhaglen hon yn llwyddiannus iawn mewn pump o'n chwe phwll nofio hyd yma, ac ar hyn o bryd canran gyfartalog y plant 11 oed sy'n gallu nofio 25 metr yw 63% ar gyfer y pum pwll nofio hyn. Byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau gwelliant sylweddol a chymorth wedi'i dargedu lle y bo'n angen er mwyn helpu pob un o'r chwe phwll nofio i wella eu perfformiad yn ystod 2015/16.

## Beth oedd y canlyniad?

Mae nifer y cwsmeriaid sy'n defnyddio ein Canolfannau Hamdden ar ei lefel uchaf erioed, yn ogystal â nifer y defnyddwyr rheolaidd sy'n talu eu tâl aelodaeth drwy ddebyd uniongyrchol. Mae ein cyfradd cadw cwsmeriaid ar ei lefel uchaf erioed ac mae wedi cynyddu o 3.2 mis i 9.2 mis. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd y diwydiant ar gyfer cadw ei gwsmeriaid. Mae ein cydweithrediad rhanbarthol, a elwir yn 'Thriving Clubs' wedi helpu i gynnyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn mwy o chwaraeon drwy ymuno â Chlybiau Cymunedol lleol.

Bydd angen gwneud rhai penderfyniadau anodd yn ystod y blynyddoedd i ddod ynghylch darparu cyfleusterau hamdden. Bydd strategaeth cyfleusterau'r Gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden yn sicrhau dull gweithredu cyson ac eglur ac yn darparu sail dystiolaeth er mwyn gwneud penderfyniadau cadarn a chyson yn y dyfodol, fodd bynnag, oherwydd ansicrwydd ariannol, rydym wedi penderfynu peidio â pharhau â'r amcan hwn yn 2015/16.

***Ar Gau***

## Ein Hamcan – Buddsoddi yng nghartrefi'r Cyngor er mwyn trawsnewid bywydau a chymunedau (AG5)

Dylai pawb yng Nghymru gael y cyfle i fyw mewn cartref o ansawdd da mewn cymuned ddiogel. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae'n rhaid i safon a chyflwr ffisegol y stoc dai bresennol gael eu cynnal a'u gwella yn unol â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Mae SATC yn safon ofynnol ar gyfer cartrefi. Ein nod yw sicrhau bod pob un o gartrefi'r cyngor yn cyrraedd SATC, a fydd yn gwella ansawdd bywyd pobl sy'n byw yn y cartrefi hynny. Byddwn yn datblygu trefniadau hirdymor, a fydd yn helpu i gynnal swyddi lleol, cynnig cyfleoedd i hyfforddi a datblygu sgiliau, a sicrhau manteision i'r gymuned ehangach. Mae hwn yn brosiect hirdymor a fydd yn para hyd at 2020.

Dim ond os yw'r Cyngor cyfan, tenantiaid a rhanddeiliaid allweddol eraill yn cydweithio y gellir cyflawni'r uchelgeisiau hyn, ac rydym yn hyderus, gyda'u cymorth, y bydd y rhaglen hon yn trawsnewid cartrefi'r Cyngor, a bywydau ein dinasyddion a'n cymunedau.

O ran y blaenoriaethau a bennwyd ar gyfer 2014/15, ystyrir bod ein darpariaeth a'n cyflawniadau hyd yma yn **Rhannol Lwyddiannus,** oherwydd mae'r rhaglen arfaethedig wreiddiol ar gyfer yr amcan hwn wedi wynebu llithriant mawr gyda'r canlyniad bod targedau wedi'u diwygio er mwyn adlewyrchu'r oedi a welwyd cyn i gontractau ddechrau.

## Yr hyn a wnaethom yn dda

Mae'r cynnydd mwyaf wedi'i wneud ar y rhaglen waith fewnol. Mae safon y crefftwaith yn gyson dda iawn ac mae lefelau boddhad tenantiaid â'r gwaith a gwblhawyd yn dal i fod yn uchel. Dechreuodd y tîm mewnol ar waith allanol yng Nghwm Rhymni Isaf ond yn ystod y flwyddyn neilltuwyd adnoddau i Rowan Place, Rhymni. O ganlyniad dim ond 88 eiddo a gwblhawyd yn allanol. Y tîm mewnol yw'r prif gontractwr ar gyfer y gwaith adnewyddu mawr yn Rowan Place, Rhymni. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo arian grant gwerth £1m o dan raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid tuag at Hafod Deg a gwaith amgylcheddol yn Rowan Place. Cyllideb SATC ar gyfer Rowan Place yw £4.2m. Mae hwn bellach yn brosiect mawr yn ei rinwedd ei hun. Dechreuodd y gwaith ar 15 Hydref ac fe'i cwblheir fesul cam dros ddwy flynedd. Mae 22 eiddo yn Rowan Place wedi'u cwblhau'n fewnol. Dechreuodd pob un o'r contractwyr gwaith mewnol tua diwedd y flwyddyn ariannol. Cwblhaodd y tri chontractwr 171 eiddo.

## Yr hyn nad aeth cystal a meysydd i'w gwella?

Oherwydd y llithriant cytunwyd ar raglen ddiwygiedig o 1,683 eiddo ond y canlyniad oedd 700 (42% o'r rhaglen ddiwygiedig). Roedd gan y rhaglen gyfalaf gyllideb o £28.8m ond arweiniodd y llithriant at danwariant o £13.5m. Y prif resymau dros y llithriant yw'r oedi a gafwyd cyn i'r contractau gwaith mewnol ddechrau; y penderfyniad i ail-dendro'r contractau gwaith allanol yng Nghwm Rhymni Uchaf; y penderfyniad i gyfyngu'r rhaglen lotiau bach yn y Cymoedd Dwyreiniol i nifer fwy hydrin o gontractau; a phroblemau arolygu sydd wedi arafu'r gwaith allanol yng Nghwm Rhymni Isaf; ynghyd â'r penderfyniad i neilltuo'r gweithlu mewnol i Rowan Place, Rhymni. Mewn gwirionedd, er mwyn gwneud hyn bydd angen cyflymu'r rhaglen er mwyn sicrhau y cyflawnir hyn erbyn y dyddiad terfyn penodedig, sef mis Mawrth 2020. Mae i hyn nifer o oblygiadau, yn benodol o ran yr adnoddau staff i reoli'r holl waith yn unol â'r amserlen. Mae Bwrdd Prosiect SATC yn ymwybodol o'r pwysau cynyddol sydd ar y rhaglen. Cymerwyd camau i atgyfnerthu'r uwch dîm rheoli ac mae timau'r prosiect wedi'u hail-gyflunio gan roi mwy o eglurder ynglŷn ag atebolrwydd.

Mae adnoddau staff ychwanegol ym mhob maes hanfodol yn cael eu hadolygu ond byddant yn dibynnu ar allu'r Cyfrif Refeniw Tai i dalu'r gost ychwanegol. Mae'r flaenraglen fuddsoddi rhwng 2015/16 a 2019/20 wedi'i hadolygu ac mae rhai newidiadau i drefn y cymunedau sy'n effeithio'n benodol ar y gwaith allanol. Er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r rhaglen yn llwyr erbyn 2020 bydd angen cwblhau 80 o brosiectau mewnol ac allanol yr wythnos, ar gyfartaledd. Mae rhai mesurau ychwanegol hefyd yn cael eu cymryd, gan gynnwys y canlynol:-

- Caiff y gwaith allanol ar 200 o flociau o fflatiau yng Nghwm Rhymni Isaf ei reoli gan y Tîm Tai yn y Sector Preifat.
- Rhoddir y Cynlluniau Tai Gwarchod ar gontract allanol i ymgynghoriaeth amlddisgyblaeth addas er mwyn iddi reoli gwaith gwella SATC.

## Beth oedd y canlyniad?

Rydym wedi gwneud cynnydd ar y rhaglen waith fewnol, gan gynnwys gosod ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd ac addasiadau eraill. Mae ansawdd y gwaith yn gyson uchel ac mae tenantiaid yn parhau i fod yn fodlon ar y gwaith a gwblhawyd, gyda 90% yn fodlon ar waith mewnol. Oherwydd y llithriant yn y rhaglen, byddwn yn cario'r amcan hwn ymlaen i 2015/16.

***I'w barhau …***

## Ein Hamcan – Gwella argaeledd tai yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus er mwyn lleihau nifer y trigolion a all fod yn ddigartref (AG6)

Roeddem yn bwriadu cynllunio i gyflwyno dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ran ymdrin â'r Gwasanaeth Cyngor ar Opsiynau Tai a Digartrefedd lle y bydd cwsmeriaid yn ymgysylltu ag un gweithiwr achos a fydd yn asesu eu hanghenion o ran tai a'u gallu i gynnal tenantiaeth bresennol neu gael gafael ar lety amgen addas, fforddiadwy a chynaliadwy a, lle y bo'n bosibl, atal digartrefedd.

Rydym o'r farn bod yr Amcan Gwella hwn yn **rhannol lwyddianus** ar gyfer 2014/15.

Yn draddodiadol, aelwydydd ac unigolion yr ystyriwyd eu bod yn fwy agored i niwed neu fod ganddynt fwy o anghenion na'r aelwyd gyffredin sydd wedi cysylltu â'r Cyngor i gael help a chyngor o ran digartrefedd neu sefyllfa lle y gallent fod yn ddigartref. Fodd bynnag, oherwydd y nifer fawr ac amrywiol o bwysau allanol, er enghraifft diweithdra, perchenogion cartrefi mewn ecwiti negyddol, lefelau uwch o ddyled ymhlith aelwydydd, y ffaith ei bod yn hawdd cael credyd a benthyciadau llog uchel, mae amrywiaeth o aelwydydd bellach yn wynebu risg o golli eu cartref. Mae'r straen a achosir gan ffactorau allanol o'r fath hefyd yn cael effeithiau ehangach, e.e. tor-perthynas a lefelau uwch o gam-drin domestig. Mae cyswllt cynhenid rhwng tai ac iechyd ac ansawdd y tai a ddarperir, yn ogystal â gallu aelwyd i fyw mewn cartref sefydlog. Rydym yn ystyried yr amcan hwn yn rhannol lwyddiannus oherwydd, er i ni wneud yn dda mewn llawer o feysydd, cafodd ein prif fenter i gyflwyno 'asantiaeth gosodiadau cymdeithasol' ei gohirio.

## Yr hyn a wnaethom yn dda

Mae'r Tîm Cyngor ar Dai a'r Tîm Digartrefedd wedi'u hailstrwythuro ac wedi'u hadleoli er mwyn darparu gwasanaeth gwaith achos canolog sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Hefyd, mae cymorth arbenigol wedi'i gyflwyno i'r tîm, a ymdriniodd â 128 o geisiadau newydd am gymorth gan aelwydydd a oedd yn wynebu risg o fod yn ddigartref.

Canlyniad ein dangosydd cenedlaethol 'canran yr holl aelwydydd a allai fod yn ddigartref, lle yr ataliwyd digartrefedd am o leiaf chwe mis' oedd 91% ar gyfer 2014/15. O'r cyfanswm o 362 o aelwydydd a allai fod yn ddigartref eleni ataliwyd 329 rhag bod yn ddigartref ac nid oedd 33 (9.1%) yn ddigartref yn 2014/15, o gymharu â 235 o aelwydydd a ataliwyd rhag bod yn ddigartref yn 2013/14 allan o gyfanswm o 259 o aelwydydd posibl. Rydym wedi cyflogi tri swyddog atal digartrefedd eleni ac yn annog landlordiaid a darparwyr tai i hysbysu'r Awdurdod pan fyddant yn cymryd camau gorfodi, gan roi amser i'r Awdurdod weithio gyda thenantiaid er mwyn atal digartrefedd. Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn (fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol) oedd 47%, sy'n well na 42% y llynedd.

## Yr hyn nad aeth cystal a meysydd i’w gwella

Mae angen i ni ddiwygio protocol carchar cyn rhyddhau er mwyn grymuso carcharorion i gynllunio ar gyfer eu hanghenion llety pan gânt eu rhyddhau o'r carchar. Mae hyn yn cael ei wneud ar lefel genedlaethol.

Mae angen i ni sicrhau bod mwy o lety fforddiadwy ar gael drwy ddatblygu asiantaeth gosodiadau cymdeithasol.
Bydd arian grant Llywodraeth Cymru yn helpu i wneud hyn ac mae defnyddio gwasanaeth asiantaeth gosodiadau cymdeithasol sy'n bodoli eisoes yn opsiwn mwy cost-effeithiol.

Mae grant cyfleusterau i’r anabl yn helpu gyda’r gost o ddarparu addasiadau a chyfleusterau mewn cartrefi er mwyn helpu unigolyn anabl i fyw gartref. Cynyddodd yr amser cyfartalog yr oedd yn ei gymryd i brosesu ein grant cyfleusterau i’r anabl rywfaint, i 302 o ddiwrnodau (292 o ddiwrnodau y llynnedd) ac mae astudiaeth o’r ffeiliau achos yn nodi bod hyn am ein bod wedi cyflawni nifer o'r addasiadau mwy cymhleth yn ystod 20141/5, a hefyd rai lle roedd angen gwneud mwy nag un addasiad, er mwyn cynorthwyo'r cleient, o fewn un gymeradwyaeth grant. At hynny, cwblhawyd llai o'r achosion llai cymhleth y gellir eu prosesu'n gyflymach. Fodd bynnag, rydym yn adolygu ein harferion wrth brosesu grantiau cyfleusterau i'r anabl mewn ymdrech i leihau amseroedd aros.


## Beth oedd y canlyniad?

Rydym wedi gwella’r cyngor a’r cymorth rydym wedi’u rhoi i bobl er mwyn helpu i atal digartrefedd. Cafwyd oedi wrth sefydlu’r asiantaeth gosodiadau cymdeithasol, ond bellach, mae cofrestr gyffredin ar waith a rennir rhwng cymdeithasau tai a landlordiaid preifat er mwyn galluogi pobl i fanteisio ar amrywiaeth o gartrefi. Mae deddfwriaeth newydd yn ei gwneud yn ofynnol i ni newid y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau, felly, er bod digartrefedd yn flaenoriaeth o hyd, ni fydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth gorfforaethol gan ei bod bellach yn rhan o’n gwaith arferol beth bynnag.

*Crynodeb a gynrychiolir uchod - mae manylion llawn am berfformiad ein Hamcanion Gwella yn [www.ccbc.co.uk](http://www.ccbc.co.uk) yn Atodiad A Perfformiad y Cyngor - Amcanion Gwella 2014/2015.*

***Ar Gau***

# Crynodeb o'n perfformiad cenedlaethol yn 2014/15




*Ffynhonnell: Uned Ddata Cymru 'How did we do..' taflen cymharu dat 2015 f5*

Mae'n bwysig i Lywodraeth Cymru ddeall pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn perfformio. Er mwyn gwneud hyn maent yn defnyddio dwy set o Fesurau Perfformiad Cenedlaethol, sef: y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) a'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC). Mae'r 43 o fesurau yn ymdrin â phrif feysydd Polisi'r Llywodraeth, Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a'r Amgylchedd. Dengys y siart sut y gwnaethom berfformio yn erbyn 42 o'r mesurau hynny yn 2014/15, lle mae perfformiad wedi gwella, wedi gwaethygu neu wedi aros yr un fath o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Gan nad yw canran yr aelwydydd digartref posibl a ataliwyd rhag bod yn ddigartref am o leiaf chwe mis (HHA013) yn cael ei chyfrifo yn yr un ffordd ledled Cymru, ni ellir ei chymharu rhwng y 22 o Awdurdodau yng Nghymru ac nis cynhwysir yn y pedwar chwarter a restrir yn y tabl isod.


Ni chynhwysir canran y diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch fesul Cyfwerth ag amser llawn (Cyf CHR002) yng nghrynodeb CBSC o berfformiad 2014/15 gan ei bod yn newydd ar gyfer 2014/15.

| | **Sut y gwnaethom berfformio o gymharu 2014/15 â 2013/14?** | | | **Sut y gwnaethom berfformio o gymharu â Chymru yn y pedwar chwarter?** | | | | **Sut y gwnaethom berfformio o gymharu â'n Targedau?** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Yn well | Yn waeth | Dim newid | Uchaf | Canol Uchaf | Canol Isaf | Isaf | Cyflawnwyd y Targed | Ni chyflawnwyd y Targed | Ni phennwyd unrhyw darged |
| Prif Weithredwr | 3 | 1 | | | 1 | 1 | 1 | 2 | 1 | 1 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | | | | | | | 1 | | 1 | |
| Addysg a Gwasanaethau Cymunedol | 12 | 5 | 2 | 4 | 5 | 4 | 6 | 10 | 9 | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 5 | 12 | 2 | 8 | 3 | 4 | 4 | 12 | 7 | |
| | *Ffynhonnell: Uned Ddata Cymru - How did we do..' taflen cymharu data 2015* | | | | | | | *Ffynhonnell: Mewnol* | | |


## Ein safle o gymharu ag awdurdodau lleol ledled Cymru


Pan fydd Llywodraeth Cymru ac Uned Data Cymru yn dadansoddi, yn adrodd ac yn graddio data perfformiad ar gyfer y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, maent yn aml yn eu cymharu â'i gilydd gan ddefnyddio chwarteri. Golyga hyn fod y data ar gyfer pob un o'r 22 o awdurdodau lleol wedi'u rhannu'n bedwar chwarter er mwyn dangos safle pob awdurdod lleol o gymharu â gweddill Cymru. Byddant yn nodi pwy sydd yn y chwarter isaf, y chwarter canol uchaf, y chwarter canol isaf a'r chwarter isaf. Weithiau cyfunir y chwarter canol uchaf a'r chwarter canol isaf er mwyn dangos y canolrif. Lle mae hyn yn digwydd cymHerir awdurdodau gan ddefnyddio tri chwartel, sef Isaf, Canolrifol ac Uchaf.

Quarter key:




**3yr trend for the number of measures in the 4 quarters**




Mae pump o'n mesurau cenedlaethol wedi symud i fyny un safle, tri o'r chwarter isaf yng Nghymru i'r chwarter canol isaf a dau o'r chwarter canol uchaf i'r chwarter uchaf. Mae'r rhan fwyaf o'n mesurau cenedlaethol (25) wedi cadw ei safle yn yr un chwarter dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda naw o'r rheini yn aros yn y chwarter uchaf yng Nghymru, er i un ostwng o'r chwarter uchaf i'r chwarter isaf a dau ostwng o'r chwarter uchaf i'r chwarter canol isaf. Mae'r chwech sy'n weddill wedi gostwng un safle chwarter.

***Ceir yr holl Fesurau Perfformiad Cenedlaethol y cyfeiriwyd atynt, ynghyd â'u disgrifiadau llawn, yn y tablau perfformiad yn yr adrannau o'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol llawn sy'n ymdrin â'r Cyfadranau, ac maent ar gael yn www.caerphilly.gov.uk My-Council/Strategies,-plans-and -policies/Improvement-Plan/Performance-Report.***

## Sut i gysylltu â ni

Rydym yn croesawu eich barn ar gynnwys y crynodeb o'n perfformiad, fel y gallwn barhau i ddarparu gwybodaeth ystyrlon sy'n helpu i sicrhau ein bod yn rhoi gwybod i chi am yr hyn sy'n bwysig i chi, a'r hyn yr hoffech gael gwybod amdano. Gallwch gysylltu â ni gan ddefnyddio un o'r dulliau isod.

### Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:


**Ros Roberts**
Rheolwraig Berfformiad
Uned Rheoli Perfformiad Corfforaethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Tŷ Penallta
Ystrad Mynach
Hengoed
CF82 7PG

Ffôn: 01443 864238

E-bost: perfformiad@caerffili.gov.uk neu roberr@caerffili.gov.uk


Neu ewch i wefan y Cyngor www.caerffili.gov.uk

NEU drwy ddolen we - Caerphillycbcl-ImprovementFeedback

Dilynwch ni a gadewch sylwadau ar dudalen **Facebook y Cyngor -** FacebookCaerphillycbc

Dilynwch y cynllun hwn a Thrydar ar ein tudalen Twitter - TwitterCaerphillycbc

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn ieithoedd a fformatau gwahanol ar gais.**